PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 397 | Mawrth 2017



Gwobr gyntaf t.5



Bwstryd t.14



Cynllunio bag t.16



Cafodd cyfraniad oes Felicity Roberts a Jaci Taylor ei gydnabod fel rhan o'r Gwobrau Dydd Gŵyl Ddewi cyntaf erioed i'w trefnu gan Brifysgol Cymru Aberystwyth – gweler t. 13



CFfI Tal-y-bont – enillwyr cenedlaethol y gystadleuaeth ' Cynulleidfa gyda...'- gweler t.16 Hoffai'r Clwb ddiolch i Elen Pen-cwm am y sgript ac i Eirwen Hughes ac Angharad Fychan ac eraill am eu cymorth.



Ar yr 8fed o Fawrth cyhoeddodd y Cyngor Llyfrau restr fer Gwobrau Tir na n-Og 2017. Cyflwynir y gwobrau'n flynyddol gan y Cyngor Llyfrau i anrhydeddu gwaith gwreiddiol gan awduron ac arlunwyr llyfrau plant yn y Gymraeg a'r Saesneg. Llongyfarchiadau i Meinir Edwards - Golygydd Cymraeg y Lolfa am gyrraedd y rhestr am ei chyfrol *Deg Chwedl o Gymru* - cyfrol a ddarluniwyd gan Gini Wade a Morgan Tomos (Y Lolfa). Cyhoeddir y buddugol yn Eisteddfod yr Urdd.



Cylch Meithrin Pen-llwyn yn dathlu Gŵyl Ddewi.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Ebrill - Deunydd i law: Mawrth 31 (Sylwer fod hyn ynghynt na'r arfer oherwydd y Pasg) Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 12**

**MAWRTH 17** Nos Wener 'Eisteddfod Fach Eto', dan ofal Geraint Evans, Tal-y-bont. Cymdeithas Lenyddol y Garn, ym Methlehem, Llandre am 7.00.

**MAWRTH 18** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn. Gwraig wadd: Elin Jones, AC yng Ngwesty'r Richmond. Manylion gan ac enwau i Richard Owen (820168).

**MAWRTH 21** Nos Fawrth Radio Cymru yn recordio Talwrn y Beirdd (Criw Alexandra v Y Llew Du a Chriw'r Ship v. Tal-y-bont) yn Neuadd Pantycelyn am 7.00

**MAWRTH 24** Nos Wener Cinio Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion er budd Apêl Seren a'r Sioe. Ocsiwn ac adloniant gan Bois y Gilfach yng Ngwesty Llety Parc am 7.00 £25 i gynnwys pryd 2 gwrs. Tocynnau meinir.evans@hotmail.co.uk 01974 200814

**MAWRTH 24** Dydd Gwener Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00yb

**MAWRTH 25** Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00

**MAWRTH 25** Dydd Sadwrn (neu'r Sadwrn canlynol os nad yw'r tywydd yn caniàtau) Cymdeithas Aredig Gogledd Ceredigion yn IBERS, Gogerddan (trwy ganiatâd caredig Prifysgol Aberystwyth).Lleoliad - Bow St – Gelli Angharad (Lovesgrove); A4195 rhwng A44 & A487. Amser Aredig: 10.00yb – 3.00yp Am fwy o fanylion cysylltwch â Dilwyn (Cadeirydd) ar 07969 750241

**MAWRTH 25** Nos Sadwrn Cofiwch droi yr awr ymlaen

**MAWRTH 28** Bore Mawrth Dangosiad o'r perfformiad o Macbeth (Theatr Genedlaethol Cymru) yn sinema Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth am 10.00 y bore

**MAWRTH 31- EBRILL 1** Nos Wener am 4.00; dydd Sadwrn am 1.00 a 5.30 Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch yn Neuadd y Penrhyn

**EBRILL 1** Nos Sadwrn Noson yng nghwmni Dafydd a Lisa; Tudur Wyn a Clive Edwards yn Llety Parc, Aberystwyth. Tocynnau: £10. Holl elw'r noson tuag at Uned Cemotherapi, Ysbyty Bron-glais a Grŵp Alzheimers, Aberystwyth. Tocynnau ar gael o Westy Llety Parc (612768 ) neu oddi wrth Megan (612768).

**EBRILL 5** Nos Fercher Cyngerdd yn Ysgol Penweddig gydag Adran yr Urdd, Aberystwyth; disgyblion Ysgol Penweddig a Chôr Cantre'r Gwaelod dan arweiniad Elen Pen-cwm am 7.00 Mynediad drwy docyn (ar gael yn Siop y Pethe neu gan Alwen Morris ar 01974 241296. Elw tuag at daith yr Urdd i Batagonia -Apêl Alwen.

**EBRILL 6** Nos Iau Cyfarfod i drafod dyfodol Neuadd Rhydypennau yn y Neuadd am 7.00.

**EBRILL 8-9** Dyddiau Sadwrn a Sul Twrnament Pêl-droed Penrhyn-coch 5ed Gŵyl Bél-droed Eric ac Arthur Thomas ym Mhenrhyn-coch. Sadwrn dan 6, 8, 12 & 14; Sul dan 9, 11&16

**EBRILL 8-9** Dyddiau Sadwrn a Sul Rowndiau terfynol Côr Cymru Cynradd 2017 a Côr Cymru 2017 yng Nghanolfan y Celfyddydau. Tocynnau ar gael am ddim o 10.00 bore Llun 6 Mawrth trwy ffonio 029 2022 3456 neu ebostio corcymru@rondomedia.co.uk

**30 EBRILL** Nos Sul Gŵyl Merêd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 7.30 gyda Glanaethwy, Dai Jones, Gwenan Gibbard a Meinir Gwilym

**MAI 5** Nos Wener Cyngerdd gan Aber Opera: Cyfarwyddwr Cerdd a Chyfeilydd: Alistar Aulde, yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 7.30.

**MAI 19** Nos Wener Rasus moch yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor o 7-10.00 dan ofal Emlyn Jones


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Chwefror 2017

**£25** (Rhif 56) Richard Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street
**£15** (Rhif 97 ) Robert Pugh, 34 Maes Ceiro, Bow Street
**£10** (Rhif 95) Edward Jenkins, Eryl, Llandre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre, pnawn Mercher Chwefror 15.

**Diolch i bawb a wnaeth ail-ymaelodi a rhai aelodau newydd felly fe fyddwn yn medru cadw y gwobrau yr un peth am eleni.**

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, os am fod yn aelod.

## 30 MLYNEDD YN ÔL




Nofwyr Adran yr Urdd, Ysgol Pen-llwyn, sef Paul Targett-Adams, Philip Baxter, Gareth Humphreys a Jonathan Lewis. Dyma'r bechgyn fydd yn cystadlu ym Merthyr Tudful yn nes ymlaen.
Llun: C.V. Baxter (O *Dincer* Mawrth 1997)



Dyma dair o ferched, sef Mrs Megan C. Davies, Mrs Della Williams a Mrs Eirwen Hughes, a wnaeth gyfraniad mawr tuag at lwyddiant Cyfarfod Cystadleuol Trefeurig. Buont wrthi'n galed yn hyfforddi'r plant ac yn cyfeilio i'r cystadlaethau. Llun: Hugh Jones (O *Dincer* Mawrth 1997)

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i'n dylunydd – Elgan Griffiths a'i wraig Mared ar enedigaeth mab – Cadog Rhun Gruffudd dydd Iau 16 Chwefror, brawd bach i Leusa.

### Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion

Mae talentau perfformio nifer o blant a phobl ifanc ardal y Tincer i'w gweld bob blwyddyn ar lwyfan Theatr y Werin ym mherfformiadau'r pantomeim blynyddol neu'r sioe Nadolig. Mae cwmnïau megis Cwmni Drama Licris Olsorts a Chwmni'r Morlan hefyd wedi bod yn perfformio dramâu bron yn flynyddol ers amser maith. Y llynedd, ailffurfiwyd cwmni'r plant, Doli Micstiyrs, ac fe gafodd y criw ifanc iawn yma lwyddiant wrth ddod i'r brig yn Eisteddfod yr Urdd yn y gystadleuaeth actio drama fer dan 25 oed, yn ail yng nghystadleuaeth actio drama fer agored yr Eisteddfod Genedlaethol, ac yn gyntaf yn y gystadleuaeth dan 18 yng Ngŵyl Ddrama Corwen.

Ar wahân i'r cyfleoedd mae cwmnïau fel y 'Wardeiniaid' yng Nghanolfan y Celfyddydau yn eu rhoi i'n hartistiaid lleol, prin yw'r cyfleoedd perfformio, yn enwedig drwy gyfrwng y Gymraeg. A phrin hefyd yw'r cyfle i bobl yr ardal weld cynnyrch y cwmnïau llai.

Felly, mae grŵp bychan wedi penderfynu creu gŵyl ddrama wedi ei lleoli yng ngogledd Ceredigion. Bydd yr ŵyl deithiol hon yn cynnal perfformiadau mewn neuaddau pentref lleol, ac – o bosib – lleoliadau eraill yn ystod mis Mehefin neu Orffennaf, gan roi cyfle i'n cwmnïau lleol fynd ar daith fer yng ngogledd y sir, a rhoi cyfle i drigolion yr ardal weld eu cynyrchiadau.

Sicrhawyd nawdd ar gyfer gŵyl 2017 oddi wrth Gronfa Eleri, a bydd y pwyllgor yn dechrau ar y trefniadau o fewn yr wythnosau nesaf, felly gobeithio y bydd manylion y perfformiadau'n ymddangos yn y *Tincer* yn ystod y misoedd nesaf.

**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**Rhodd**

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cyngor Cymuned Genau'r-glyn £200
Cyngor Cymdeithas Trefeurig £250

## LLANDRE

**Eisteddfodol**

Llongyfarchiadau i Dyfri ap Ioan Cunningham am ddod yn gyntaf ar yr unawd gitâr Bl 6 ac iau ac i Heddwyn ap Ioan Cunningham am ddod yn gyntaf ar yr unawd chwythbrennau Bl. 6 ac iau.

Yn y ddawns werin unigol i fechgyn Bl. 9 ac iau daeth Dyfri yn 1af a Heddwyn yn ail; daeth y ddau hefyd yn gyntaf yn y Dawns Stepio i Grwp dan 25 oed. Pob hwyl ym Mhen-y-bont ar Ogwr.





Merched y Wawr Llandre gyda bagiau dathlu 50 mlynedd y mudiad ar ôl cael cinio Gŵyl Ddewi yng nghaffi Newmans, Capel Dewi.

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 17 Ionawr, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gydag Eirian Reynolds yn y gadair. Roedd pawb o'r cynghorwyr yno ond am dri. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Shân James, Gwenan Price a Tegwyn Lewis; roedd y Clerc hefyd yn bresennol.

Materion yn codi: Tir ger Horeb - y gwaith wedi ei orffen. Nid oedd cais am arian wedi dod oddi wrth Gyngor Ceredigion. Golau yn agos i Ger-y-llan - y Clerc i holi'r Cyngor Sir am grantiau tuag at oleuadau stryd, ac i holi am amcan-bris am y gwaith. Tan-rallt, Pen-bont - y Clerc i wneud ymholiadau pellach gyda'r Gofrestrfa Dir a chyda'r Cyngor Sir. Cofeb Dafydd ap Gwilym - roedd gwybodaeth wedi dod i law mai yr Academi Gymreig oedd biau'r gofeb. Byddent yn croesawu cymorth y Cyngor i wneud unrhyw waith angenrheidiol arni. Richard Owen i weld beth oedd angen ei wneud. Tir ger Glanceulan - y Clerc wedi holi Mid Wales Landscaping i dorri'r borfa ac i drin y ffens rhwng y tir a'r afon.

Sefyllfa'r Clerc: roedd y Clerc wedi cynnig ei hymddiswyddiad ym mis Tachwedd, ac roedd y swydd wedi'i hysbysebu. Cafwyd un cais. Fodd bynnag, cyn i'r cais hwnnw gael ei ystyried, roedd amgylchiadau'r Clerc wedi newid ac roedd yn dymuno tynnu ei hymddiswyddiad yn ôl. Roedd y Cadeirydd wedi holi beth oedd y sefyllfa gyfreithiol, ac wedi cael sicrwydd nad oedd dim rhwystr i dderbyn cynnig y Clerc i aros. Penderfynwyd gwneud hynny.

Gohebiaeth - roedd llythyr wedi dod gan un o'r plwyfolion yn gresynu at y ffaith fod rhai o'r gwasanaethau bysiau cynharaf a hwyraf o Benrhyn-coch i'r dref wedi eu dileu. Mynegodd Mel Evans ei fudd yn y mater fel perchennog y cwmni bysiau lleol, ond gofynnwyd iddo aros yn yr ystafell. Eglurodd mai rhesymau economaidd yn unig oedd yn gyfrifol am y penderfyniad i ddileu rhai o'r gwasanaethau. Doedd y gwasanaethau dan sylw ddim yn derbyn cymhorthdal, ac nid oedd digon o bobl yn eu defnyddio i'w gwneud i dalu. Penderfynwyd anfon yr wybodaeth hon ymlaen at y sawl a gododd y mater.

Archebiant ar gyfer 2017/18: Penderfynwyd cadw'r archebiant (incwm y Cyngor o'r dreth) yr un fath ag eleni, sef £13,000.

Cabanau ffôn: roedd y Clerc wedi cael gwybod fod BT yn trafod dyfodol y caban ffôn ger y Post yn Penrhyn gyda pherchnogion y Post (ar dir y Post y mae'r caban).

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 21 Chwefror, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gydag Eirian Reynolds yn y gadair. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mel Evans, Dai Mason, Gwenan Price a Jeff Pyne; roedd y Clerc yn methu bod yn bresennol o achos y tywydd.

Materion yn codi: Maes Seilo - penderfynwyd holi Cyngor Ceredigion a Thai Ceredigion i ddod i gyfarfod cynrychiolwyr o'r Cyngor i drafod y maes parcio y tu draw i Faes Seilo. Tan-rallt, Pen-bont - roedd y Cyngor Sir yn bwriadu ymweld â'r lle i weld beth oedd sefyllfa'r garej. Dafydd ap Gwilym - dywedodd Edwina Davies fod Eglwys Penrhyn-coch yn ystyried y posibilrwydd o gael arddangosfa barhaol am Dafydd ap Gwilym yn yr Eglwys. Y tir ger Glanceulan - roedd y borfa ger Glanceulan wedi cael ei thorri, ac roedd ffens newydd wedi ei gosod rhwng y tir a'r afon. Diolchodd Richard Owen am y sylw buan a roddwyd i'r mater. Datblygiad Gogerddan - roedd y Brifysgol yn cael cyfarfod gyda'r Cyngor Sir am y datblygiad hwn yr wythnos ddilynol. Barn gref y Cyngor oedd y dylid lledu'r ffordd i lawr at y groeslon cyn i'r datblygiad fynd yn ei flaen. Tir ger Horeb - roedd siec wedi dod gan Horeb yn gyfraniad tuag at gost y lle parcio newydd a wnaed gyferbyn â'r capel.

Gohebiaeth: roedd y Comisiwn Ffiniau yn bwriadu gwneud arolwg o ffiniau wardiau Cyngor Sir Ceredigion. Un Llais Cymru - penderfynwyd ymaelodi gyda ULlC, y gymdeithas i gynghorau bro a thref Cymru, am flwyddyn arall.

Ceisiadau am gymorth ariannol: trafodwyd y ceisiadau blynyddol am gymorth ariannol gan wahanol gyrff a mudiadau. Dyfarnwyd y grantiau canlynol: Brownis Penrhyn-coch, £200; Eisteddfod y Penrhyn, £200; Tîm Pêl-droed Ieuenctid Penrhyn-coch, £300; Tîm Pêl-droed Merched Penrhyn-coch, £150; Y Tincer, £250; Cyfeillion Tregerddan, £500; PATRASA, £300; Cylch Meithrin Penrhyn-coch, £300; Neuadd y Penrhyn, £500; Cymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol Penrhyn-coch, £300; Ffermwyr Ifanc Ceredigion, £200; Ambiwlans Awyr Cymru, £300

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN







Eisteddfodwyr ifanc Cylch Meithrin Pen-llwyn

### Nôl Adre

Mae Wynne ac Eleanor Jones, Tan-y-gaer, wedi cyrraedd yn ol o Chile, wedi bod yn ymweld â Hannah eu merch a'i phriod Owain, heb anghofio eu hŵyr bach Osian. 'Roeddent wedi mwynhau yn fawr. Gweler llun o'r teulu bach ym Mhatagonia.

Mae Dr Robin Young hefyd yn ôl o Norwy, wedi treulio rhyw bedwar mis gyda'i deulu.

### Triniaeth Feddygol

Anfonwn, ein dymuniadau da am wellhad buan, i'r canlynol, sydd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar, sef:

Mrs Liz Collison, Dolcniw, wedi cael glin newydd; Mr Aled Lewis, Ystrad, triniaeth ar ei benglin, a Mrs Anne Davies, Maencrannog, triniaeth ar ei llygad. 'Rydym wedi eich colli yn fawr Mrs Davies, o oedfaon, y Sul. Brysiwch wella bob un.

### Ysgrifennydd Newydd

Mae Miss Lynne Davies, Glasfryn, wedi cymryd at y swydd ysgrifennydd y Cyngor Cymuned. Dymunwn iddi pob hwylustod yn y gwaith. Wedi ei hymddeoliad, mae llawer yn awyddus am ei gwasanaeth.

### Gyrrwr newydd

Pasiodd Amy Dryburgh ei phrawf gyrru yn ddiweddar. Llongyfarchiadau, a da iawn ti, ond bydd yn ofalus, efallai bod yr heddlu rownd y gornel!!

### Baban newydd

Llongyfarchiadau i Mrs Heulwen Lewis ar ddod yn fam-gu eto. Ganwyd mab bach i Meinir a Huw Jones, Caerffili. Mae Osian yn siwr o fod wedi gwirioni â'i frawd bach newydd, Steffan Huw.

### Y Dyn Llaeth

'Nol yn y pedwar a'r pumdegau, gwelid y gart laeth yn cael ei dynnu gan geffylau, ac yn dosbarthu llaeth ffres o ddrws i ddrws. 'Roeddynt y pryd hynny yn gyffredin iawn ac yn gweithredu gan laethdai lleol. Ymhen amser, yn yr wythdegau mynnodd y Farchnad Gyffredin fod yr archfarchnadoedd yn cael torri i lawr pris y llaeth, ac fel canlyniad, roedd cynnydd ar y gwerthiant, a llai o alw ar y dyn llaeth symudol, sy'n biti o beth i'r gwerthwyr llaeth.

Serch hynny, mae nifer o hyd , yn dosbarthu o ddrws i ddrws, yn eu cerbydau, i wahanol ardaloedd.

Mae Mr Glyn Thomas, Stad Pen-llwyn, yn un o'r rhai hynny. Mynychodd Glyn ysgolion Pen-llwyn a Phen-glais, ac wedi ei ddyddiau ysgol, dechreuodd ei rownd laeth tua 1993.

Erbyn hyn mae ond yn canolbwyntio ar ddosbarthu o amgylch Llanbadarn, y Waun, Comins-coch a'r dre, yn gwerthu llaeth ac wyau. Mae hefyd yn cynorthwyo ar fferm y teulu Troedrhiwlwba, Yn rhyfedd ddigon, mynd o amgylch y pentref gyda'i gart a phoni oedd gwaith yr hen William Thomas, hen dad-cu Glyn. Fel mae'r oes wedi newid. O dipyn i beth mae Glyn gyda'i briod Rose yn gwerthu nwyddau tŷ, gardd a harddwch o gwmni Kleeneze. Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

### Eglwys Dewi Sant

Ar Nos Fawrth Ynyd, cynhaliwyd Noson Grempog yn Neuadd yr Eglwys. Cawsom grempogau hyfryd a blasus gan y cogyddion. Gwnaed hwy gan Andrew a Heather Loat; Lowri, Nannon a Tomos; a Llinos. I ddilyn cafwyd adloniant ardderchog gan Trefor, Eleri a'u ffrindiau. Hyfryd o beth oedd gweld pobl ifanc yn cymryd rhan er mwyn diddannu cynulleidfaoedd. Mae ganddynt ddyfodol disglair o'u blaenau. Daliwch ati. Hefyd cynhaliwyd raffl ar y noson gyda llu o wobrau da. Cafwyd noson lwyddiannus a phawb wedi mwynhau. Croesawyd pawb a thalwyd y diolchiadau gan Y Canon Andrew Loat.

### Merched y Wawr Melindwr

Daeth mwyafrif o aelodau'r gangen i westy'r Richmond ar nos Fawrth y 7fed o Fawrth i ddathlu ein Nawdd Sant. Ein gwraig wadd oedd Delyth Morris Jones, Tŷ Mawr, Ponterwyd. Cafodd pawb gyfle i gymdeithasu cyn y pryd traddodiadol ac o'r safon rydym yn dod i ddisgwyl o'r gwesty yma.Gofynnodd ein llywydd, Angharad Jones, i Heulwen Lewis roi'r fendith. Dim am y tro cyntaf cafodd Delyth ein sylw yn mwynhau ei ffordd naturiol a ddigri o siarad. Daeth a dau focs o lyfrau a dangoswyd ambell i dudalen ddiddorol y tu mewn. Beibl ei brawd - fel bachgen ifanc roedd wedi dysgu sawl Salm gyfan. Beibl Tŷ Mawr yn cynnwys erthyglau pwysig neu hanesyddol. Llyfryn bychan dysgu darllen heb anghofio y llyfr o luniau blodau a barddoniaeth brynwyd amser yn ôl i ffrind fel anrheg pen blwydd. Bron iddi dderbyn yr ail waith!

Diolchwyd i Delyth am ei haraith bleserus a dymunol gan Angharad cyn tynnu'r raffl ac enillwyd gan Margaret Dryburgh.Tynwyd llun pawb hefo'i bagiau dathlu pen blwydd Aur - sef 50 mlynedd y Mudiad eleni cyn troi am adref wedi mwynhau noson mas draw.

### Eisteddfodol

Morgan Jac Lewis, Bronllys yn wên o glust i glust ar ôl ennill y wobr gyntaf am lefaru a'r ail wobr am ganu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Aberystwyth. Pob dymuniad da iddo efo'i "Arwr" ym Mhontrhydfendiaid yn yr Eisteddfod Ranbarth.



owain bebb
a'i gwmni
CYFRIFWYR SIARTREDIG
*CHARTERED ACCOUNTANTS*

**Aberystwyth** 01970 607920
3 Tŷ Harbwr, Y Lanfa,
Aberystwyth SY23 1AS
**Caernarfon** 01286 677 624
**Pwllheli** 01758 612646
post@owainbebb.cymru
owainbebb.cymru

SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
**Shan Jones**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.



eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

# O'r Cynulliad Elin Jones






Y mis hwn cynhaliais gyfarfod gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth, a'r grŵp ymgyrchu dros ailsefydlu'r rheilffordd o Aberystwyth i Gaerfyrddin, sef Traws Link Cymru. Roeddwn yn falch i ddod â'r ddau ynghyd i drafod yr asesiad dichonoldeb sydd ar y gweill a fydd yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad erbyn tymor yr hydref. Mae gan Traws Link ymwybyddiaeth eang am y rheilffordd arfaethedig, yn ogystal ag uchelgais i weld y prosiect yn cael ei gyflawni. Roeddwn yn falch, felly, i glywed y Gweinidog yn nodi y dylai'r grŵp chwarae rhan bwysig yn yr astudiaeth.

Mae awydd cynyddol am deithio ar drenau yng Ngheredigion, ac i sicrhau ein bod wedi'n cysylltu'n llawn, unwaith eto, gyda'r rhwydwaith rheilffyrdd. Diolch i Traws Link am ei holl waith hyd yn hyn, ac edrychaf ymlaen at weld cydweithrediad pellach â Llywodraeth Cymru er mwyn symud i'r cam nesaf ar y prosiect hwn.

Cynhaliwyd cynhadledd wanwyn Plaid Cymru'r mis hwn yn ninas Casnewydd. Roeddwn yn falch iawn i gadeirio sesiwn, a oedd yn trafod dyfodol ein cymunedau amaethyddol. Noddwyd y digwyddiad gan Undeb Amaethwyr Cymru, sydd â'i phencadlys ar gampws Gogerddan, ac roeddwn yn falch i weld cymaint o bobl yno i wrando ac i drafod yr effaith ar nifer o agweddau amaethyddol yn sgîl Brecsit.

Roedd nifer o'r siaradwyr, gan gynnwys Llywydd yr FUW, Glyn Roberts, a'r Aelod Cynulliad, Simon Thomas AC, yn poeni'n fawr iawn y bydd San Steffan yn ceisio diddymu rhai o bwerau Llywodraeth Cymru, petai Brecsit yn cael ei gyflawni. Mae hyn yn sicr yn bryder, ac fe ddylwn ni gyd fod yn wyliadwrus nad yw hyn yn digwydd. Mae cadw pwerau'n agos atom ni yn sicrhau fwy o atebolrwydd, ac mae cymunedau amaethyddol a fydd yn cael eu heffeithio mwya' gan Brecsit, yn sicr angen i'w Llywodraeth ymateb yn gyflym ac yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bywoliaeth nhw.

Rwy'n gobeithio y bydd y pwnc hwn yn cael ei drafod unwaith eto, wrth i mi gynnal cyfarfod agored ar Brecsit, wedi'i hanelu yn uniongyrchol tuag at bobl ifanc o gymunedau amaethyddol ar nos Iau, 16 o Fawrth yng Nghlwb Rygbi Aberaeron am 7.30. Os ydym ni am arbed ein cymunedau amaethyddol i'r dyfodol, rhaid i ni sicrhau bod ein pobl ifanc yn teimlo'n hyderus i fedru cymryd yr awenau. Rwy'n gobeithio felly y medrwn leddfu rhai pryderon y genhedlaeth nesaf, a gweithio gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn symud ymlaen mewn ffordd sy'n cynnwys pawb.




**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn £120; hanner tudalen £80; chwarter tudalen £50. Maint i fyny i 4cm x 6cm, £40 am ddeg rhifyn (£4 y rhifyn am 6-10 rhifyn / £6 y rhifyn am 1-5 rhifyn). Maint dros 4cm x 6 cm a lan i 6cm x 9cm, £60 am ddeg rhifyn (£6 y rhifyn am 6-10 rhifyn / £8 y rhifyn am 1-5 rhifyn). Cysyllter â'r Trysorydd.

## Llythyr

Annwyl gyfaill
Daeth yn gyfnod ymgyrch aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac felly dyma ysgrifennu at ddarllenwyr *y Tincer* i ofyn i chi ymaelodi â'r Gymdeithas, er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu dal ati i wneud ein gwaith a sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r iaith.

Mae llawer o newid wedi bod yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, er gwell ac er gwaeth. Un peth cyson yw'r ffaith bod Cymdeithas yr Iaith wedi bod yna bob cam o'r ffordd, yn brwydro i sicrhau hawliau i bobl Cymru, a dyfodol i'r iaith.

Mae llawer wedi'i ennill, ond mae ffordd bell i fynd eto cyn cyrraedd y nod. Mae angen rhagor o aelodau ar Gymdeithas yr Iaith er mwyn dal ati gyda'r gwaith. Allwch chi gefnogi? Fe fyddai'n braf iawn gweld rhagor o bobl gogledd Ceredigion yn ymaelodi eleni.

Fe allwch chi ymaelodi â'r Gymdeithas drwy ein gwefan www.cymdeithas.cymru/ymaelodi gan dalu gyda'ch cerdyn banc, neu drwy anfon siec at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ. Mae croeso i chi ffonio'r swyddfa ar 01970 624501 i gael rhagor o wybodaeth neu i drefnu aelodaeth dros y ffôn. Cofiwch sôn eich bod yn ymaelodi ar ôl gweld y llythyr yn *y Tincer*!

Mae angen eich cefnogaeth yn fwy nag erioed, felly ewch ati heddiw i ymaelodi. Os na newch chi, pwy neith?

Gyda diolch,
Osian Rhys
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

# Aled Myrddin

Llongyfarchiadau i Gôr Meibion Machynlleth a'u harweinydd Aled Myrddin ar ennill rownd y Corau Meibion yn Côr Cymru 2017. Byddant yn awr yn cystadlu yn y Rownd Derfynol ar nos Sul Ebrill 9fed.

Mewn cyfweliad radio eglurodd Aled fod y Côr wedi ei ffurfio ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r gororau 2015 ac ar ôl cael llwyddiant penderfynwyd cario ymlaen; daethant yn ail ddwywaith mewn cystadlaethau yn y Genedlaethol. Roedd nifer o'r aelodau yn rai oedd wedi bod yn canu efo'r Urdd a CFfI yn lleol ond wedi mynd yn rhy hen i gystadlu ond roedd aelodau eraill erioed wedi canu o'r blaen ond wedi mwynhau dysgu – rhai o'r glust. Fel y daeth aelodau yn fwy cyfarwydd â chanu roedd modd canu darnau mwy heriol. Mae cymaint o aelodau'r côr yn y byd amaeth mae amser wyna yn golygu fod nifer ddim ar gael i ymarfer! Mae i'r côr tua 50 aelod ac maent yn cyfarfod yn festri Eglwys Gymunedol Machynlleth.

Mae Aled yn gwrando llawer ar gorau meibion gwahanol wrth ddewis darnau sy'n addas i'w Gôr. Cafodd lawer o brofiadau yn y byd cerddorol – bu yn aelod o fand pres, cerddorfeydd a chorau. Yn 2003 enillodd ar yr unawd Cerdd Dant 19-25 oed yn Eisteddfod yr Urdd oedd yn golygu ei fod yn cystadlu am Ysgoloriaeth Bryn Terfel. Enillydd y Llefaru Unigol 19-25 oed yn yr un Eisteddfod - a oedd hefyd ar y Bryn Terfel - oedd Catrin Heledd – beirniad adrodd Eisteddfod Penrhyn-coch eleni. Aled Pedrick oedd yn fuddugol y flwyddyn honno.

Yn 2008 – ac yntau yn athro yn Ysgol Bro Dyfi, Machynlleth, enillodd gystadleuaeth S4C Cân i Gymru gyda'i gân Atgofion a ysbrydolwyd gan ei wraig Erin a'i deulu. Roedd ar y pryd hefyd yn aelod o'r grŵp pop Cristnogol Manna.

Fe'i magwyd mewn cartref cerddorol – ei fam yn athrawes gerdd a'i chwioryddd yn y byd cerdd. Ac mae yn amlwg fod y ddawn gerddorol yn parhau – daeth ei ferch Lili Myrddin yn drydydd ar ei hunawd Bl.2 ac iau yn yr Eisteddfod Gylch ar Fawrth 9fed!

Ond er ei fod yn mwynhau cerddoriaeth cymaint penderfynodd fynd am yrfa fel athro addysg gorfforol gan gadw cerddoriaeth ar gyfer mwynhad.

Dydd Sul diwethaf roedd yn arwain rhifyn o'r rhaglen Dechrau canu, dechrau canmol recordiwyd yn stiwdios y BBC yn Llandaf.



TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor 6 diwrnod yr wythnos Mawrth-Mai (ar gau Llun ond ar agor Gwyliau Banc)
01970 820 050
Pennau

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# PENRHYN-COCH



Elsie Morgan yn cyflwyno arian bore coffi drefnodd i Mr & Mrs Mike Taylor o Macmillan Aberystwyth. Gwelir yn y llun Eileen Rowlands, Margaret Lile, Mr & Mrs Mike Taylor ac Elsie Morgan.

### Suliau Horeb

*Mawrth*

19 10.30 Clwb Sul – Horeb
2.30 Beti Griffiths

26 10.30 Clwb Sul – Ar y cyd yn Sant Ioan
10.30 Ymuno â Bethel, Aberystwyth – Yr Athro John Tudno Williams

*Ebrill*

2 2.30 Y Parchg Peter Thomas

9 10.30 Y Parchg Peter Thomas

16 (Sul y Pasg) 2.30 Rhidian Griffiths

23 2.30 Ymuno â Bethel ym Methel, Aberystwyth Y Parchg Judith Morris

30 10.30 Y Parchg John Roberts

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 22 Mawrth, 12 a 26 Ebrill. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Diolch

Dymuna Mair Evans, Glanceulan, ddatgan ei diolch i'w ffrindiau ymhell ac agos am yr holl negeseuon caredig ac ymweliadau a dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Bron-glais.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimwn â Haydn Foulkes, Maesyrefail, ar farwolaeth ei dad - Philip Snowden Foulkes, Llanrwst, fu farw ar 26 Chwefror.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Brian a Mary Thomas, Llys Myrddin, ar enedigaeth wyres – ganwyd Betsan Fflur Richards, merch i Irfon a Nia Richards, Llanrhystud, ar 22 Ionawr. Wyres hefyd i Megan Richards, Aberaeron - un o ffyddloniaid Eisteddfod Penrhyn-coch.

Dymunwn wellhad buan i Dewi Edwards, Glan Ceulan, a fu yn yr Ysbyty yn ddiweddar, a chydymdeimlwn ag ef a Dot Edwards ar farwolaeth brawd Dewi. Cydymdeimlwn a Dot Edwards, 21 Glanceulan, ar farwolaeth ei gŵr Dewi Edwards ar 7/8 Mawrth – a hynny yn fuan ar ol colli ei frawd

### Eisteddfod Penrhyn-coch

Os os rhywun am gyfrannu tuag at Eisteddfod Penrhyn-coch gellir gwneud trwy archeb banc flynyddol sydd ar gael gan Robert Dobson, 12 Cae Mawr, Penrhyn-coch. Byddai Robert a Bethan Davies hefyd yn gwerthfawrogi cael unrhyw gyfraniadau ariannol tuag at wobrau cyn diwedd y mis.

### Cyfeiriadur busnes

Wyddech chi fod yna Gyfeiriadur Busnes ar wefan Trefeurig www.trefeurig.org – cyfle i hysbysebu busnesau yn y plwyf am ddim! Os hoffai unrhyw un ychwanegu at yr wybodaeth mewn unrhyw ffordd neu ychwanegu llun(iau) ebostiwch golygydd@trefeurig.com.

### Urdd y Gwragedd

Noson yng nghwmni Tony Moyes o Benrhyn-coch gafwyd ym mis Mawrth. Mae wedi teithio dipyn a hanes ei daith i Ynysoedd y Faroe gafwyd ganddo. Cydymdeimlad Mae deunaw ynys i gyd gyda 50,000 o breswylwyr; teithiodd gydag awyren, llong, fferi a bws yn ystod ei ymweliad ac roedd ambell o'r llefydd yn anghysbell. Melyn Mair y gors yw blodyn cenedlaethol yr ynysoedd a welwyd yn tyfu ar hyd y lle, a Llysiau'r Angel yn ffefryn hefyd. Mae ffyrdd llydan modern yn gweu drwy'r ynysoedd a thwneli i



Aelodau Cylch Meithrin Trefeurig ar Ddiwrnod y Llyfr



Beics newydd wedi eu prynu i Gylch Meithrin Trefeurig gydag arian o Garej NISA.

gysylltu y brodorion a nwyddau tuag at y porthladdoedd. Mae Tony yn gobeithio mynd yn ôl i Faroe eto yn y dyfodol agos ac efallai bydd ganddo ragor o storïau a lluniau iw dangos i ni. Diolch i William Howells hefyd am ei gyfraniad ef at y noson.

### Sioe Penrhyn-coch

Dydd Sul y 19eg o Chwefror aeth criw bach hapus Sioe Penrhyn-coch allan i ginio amser cinio i Westy y Marine yn Aber. Cafwyd prynhawn bach hwylus yng nghwmni ein gilydd. Gan ein bod ddim wedi cael cinio sioe ers tro byd, fe groesawodd Dai Rees Morgan pawb, ac yn arbennig Llywyddion y Sioe am 2015/16, i'r cinio, sef Edith ac Aeron a Margaret a Ceredig, a diolchodd iddynt am eu haelioni, ac i bawb a gyfrannodd at y sioe mewn unrhyw fodd. Ategwyd yr hyn oll gan Mairwen yn ei dull arferol. Diolch i bawb yn y Marine am eu croeso.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Howell Evans, Y Ddôl Fach, ar ôl cael triniaeth ar ei lygaid. Hefyd Mervyn Hughes, Ger-y-Llan, sydd hefyd wedi derbyn y triniaeth yn ddiweddar yn yr ysbyty.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu a chysylltiadau y diweddar Jack McGrath, 3 Tan-y-Berth. Cynhelir yr angladd dydd Gwener 17 Mawrth yn Amlosgfa Aberystwyth am 12.00. Mae cais i wisgo dillad lliwgar. Derbynir rhoddion er cof tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Trefnwyd lluniaeth wedyn yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch o 1.00

### Cymdeithas y Penrhyn

Nos Iau, 15 Chwefror, cafwyd noson yng nghwmni Lyn Ebenezer. Cyhoeddodd gyfrol y llynedd o'r enw *Gwersyll Fron-goch 1916 – 'Y Pair Dadeni'* – ac yn ei sgwrs cawsom hanes y gwersyll a'i rôl flaenllaw yn hanes Iwerddon. Gan gychwyn gyda Gwrthryfel y Pasg 1916, dienyddio James Connolly ac arweinwyr eraill a charcharu 1,800 o Wyddelod yn Fron-goch. Dosbarth Canol, Catholig oedd y mwyafrif ohonynt a diddorol oedd clywed am y gwersi a'r adloniant – yn gyngherddau a dramâu – a drefnwyd ganddynt.Enillodd Fron-goch enw 'Prifysgol y Chwyldro' a daeth yn symbol o gyfnod y chwyldro yn hanes Iwerddon. Yno yr heuwyd hadau Iwerddon annibynol o dan Michael Collins.

Erbyn hyn, does dim ar ôl o'r gwersyll. Ysgol Bro Tryweryn a saif ar y safle'r hen ddistyllty.




**Diwrnod codi arian i Macmillan 4x4 yn Garej Tymawr, Penrhyn-coch. Mae'r cyfanswm erbyn hyn bron a chyrraedd £3,000. Diolch i bawb am eich cefnogaeth gyson.**

Mae'n amlwg fod y pwnc yn agos iawn at galon ein gŵr gwadd. Mae'n dal i ddychwelyd i'r pentre'n achlysurol ac yn hynod falch fod plant yr ysgol yn hyddysg yn hanes yr hen wersyll.

### Ennill gwobr

Llongyfarchiadau i Mair Daker, Glan Ceulan, am ennill Gwobr Pencampwr y Gymraeg – Staff nos Fawrth 7 Mawrth yng Ngwobrau Prifysgol Aberystwyth. Mae Mair yn gweithio yn Llyfrgell Thomas Parry ac mae'n cael effaith amlwg ar y ffordd y mae staff yn y Brifysgol yn defnyddio'r Gymraeg. Mae wedi bod yn defnyddio geiriau a thermau Cymraeg dros e-bost wrth ohebu ag aelodau staff di-Gymraeg gan roi cyfieithiad o'r geiriau hyn wrth eu hymyl, yn ogystal â threfnu sesiwn dysgu termau Cymraeg sylfaenol ar gyfer staff y llyfrgell. Mae hi hefyd yn ceisio annog a chynorthwyo myfyrwyr i'w defnyddio. Roedd Mair yn un o saith a gafodd wobrau ac yn ogystal a chyflwyno tlws iddynt ysgrifennodd Eurig Salisbury englyn i bawb ohonynt – dyma englyn Mair.

**Mair Daker**

Ers oes oesoedd, cyhoeddi – hen air oer
Wnâi'r arwydd 'Distewi!'
Diolch fod un heb dewi
Sy'n llawn iaith, sy'n llyw i ni.

*Eurig Salisbury*
*Mawrth 2017*



# Cronfa Eleri - £252k+ o gymorth i weithgaredd

Rhwng 1998 a 2016 derbyniodd Cronfa Eleri geisiadau am gymorth o dros £466,000 gan 265 o ymgeiswyr. Rhoddwyd cymorth i dros 180 ohonynt, gan roi cyfanswm o dros £252,000 (cyfartaledd o tua £954 y cais). Y cais unigol mwyaf a dderbyniwyd mewn un flwyddyn oedd un am £15,000 a'r cymorth unigol uchaf a ddyfarnwyd mewn un blwyddyn oedd £6,796. Y cais isaf a dderbyniwyd oedd am £100 a'r isaf a ddyfarnwyd oedd £80. Y gefnogaeth fwyaf a roddwyd, hyd yma, i gefnogi cynlluniau un ymgeisydd (dros sawl blwyddyn) oedd £18,340. Mae natur y cynlluniau a gefnogwyd wedi bod yn amrywiol iawn. Eleni (blwyddyn cynhyrchiant 2016), cefnogwyd gwerth dros £18,000 o gynlluniau yn yr ardal sy'n cwmpasu Mynydd Gorddu. Dyma'r cynlluniau a gefnogwyd: Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion; Neuadd Goffa Tal-y-bont; Cwmni Cletwr; Ysgol Rhydypennau; Ysgoldy Bethlehem, Llandre; Cylch Meithrin Tal-y-bont; Clwb Pêl-droed Bow St; Cyngor Cynuned Ceulanamaesmawr; Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch; Llyfr Enwau Llefydd Bont-goch; Eglwys St Ioan Penrhyn-coch; Sioe Llangynfelyn; Celf Taliesin; Grŵp Llifogydd Tal-y-bont. Am fanylion pellach, ewch i wefan Cronfa Eleri (www.cronfaeleri.cymru).

## CYMANFA GANU UNEDIG GOGLEDD CEREDIGION 2017

### Bethel, Tal-y-bont Dydd Sul 14 Mai 2017

am 10.00 a 5.30 o'r gloch
**Arweinydd**: Alwyn Evans, Machynlleth

Trefn y rihyrsals nosweithiau Mercher
5 Ebrill. Capel y Morfa am 7.00
12 Ebrill Capel y Garn, Bow Street am 7.00
26 Ebrill Bethel, Aberystwyth am 7.00
3 Mai Seion, Stryd y Popty am 6.30
10 Mai Bethel, Tal-y-bont am 7.00

# BOW STREET

### Suliau

**Garn**
**10.00 a 5.00**
Gweler hefyd /www.capelygarn.org/

*Mawrth*
19 Bugail
26 Oedfa'r Ofalaeth- Cyfarfod gollwng y Parchg Wyn Morris am 5.00 yn y Garn

*Ebrill*
2 Noddfa (bore)
9 Y Parchg Elfed ap Nefydd Roberts
16 (Sul y Pasg) Aelodau'r eglwys
23 John Tudno Williams
30 Rhidian Griffiths

**Noddfa**
*Mawrth*
19 10.00 Cyfeillach
26 2.00 Gweinidog

*Ebrill*
2 10.00. Y Garn yn uno.
9 10.00. Gweinidog. Cymundeb.
16 10.00. Oedfa Sul y Pasg
23 10.00 Cyfeillach
30 10.00 Oedfa Undebol yn Noddfa

*Mai*
7 Uno yn y Garn am 10.00

**Ysgol Sul Bow Street**
*Ebrill*
2 Noddfa
9 Gwyliau`r Pasg
16 Gwyliau`r Pasg
23 Gwyliau`r Pasg
30 Noddfa

*Mai*
7 Y Garn

### Gwellhad buan

Gwellhad buan i Mr Rees Thomas, Tŷ Clyd; Mr Rheinallt Lewis, 38 Maes Ceiro, a Mr Rhydian Jones, Cân y Gwynt, Maes-y-garn. Y tri wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen.

### Diolch

Dymuna Marian, Iestyn a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain arbennig, sef Elizabeth Jane (Elsa) Evans, Gwyndy, Llannefydd. Diolch i'r cyfeillion a deithiodd i fyny i'r angladd ac i'r Parch. Wyn Rhys Morris am ei ran yn y gwasanaeth. Casglwyd £1,300 tuag at gynllun Gofal Dydd Capel Waungoleugoed, Llanelwy, er cof am Elsa, a diolch i bawb a gyfrannodd.

### Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Buddug Jenkins, Maes-y-garn, ar golli ei chwaer yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Rhydian a Megan Phillips yn nhalaith De Awstralia ar farwolaeth mam Megan yn Awstralia yn ddiweddar.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Leanne a Gareth, Caerdydd, ar enedigaeth eu mab, Theo Nicolaus Herbert; ŵyr i Gwynant a Lyn Phillips, Cae'r Odyn.

Llongyfarchiadau i Gaenor a Gareth William Jones, Hafle, ar enedigaeth wyres arall. Ganwyd Lleucu Bryn ar 18 Chwefror i Llŷr a Llinos yn Llanuwchllyn; chwaer fach i Math a Beca.

**Capel y Garn**

### Y Gymdeithas Lenyddol

Nos Wener, Chwefror 17, Manon Steffan Ros fu'n annerch y Gymdeithas. "Ysbrydoliaeth" oedd y testun roedd hi wedi ei ddewis, a hynny'n addas iawn gan fod ei chyflwyniad o'r hyn sydd wedi ei hysbrydoli hi i fod yn awdures mor boblogaidd hefyd wedi bod yn ysbrydoliaeth i'w chynulleidfa. Diolchwyd iddi'n gynnes gan yr Athro Gruffydd Aled Williams. Wrth gloi'r cyfarfod atgoffodd y Llywydd, Alan Wynne Jones, yr aelodau am yr Eisteddfod Fach sydd i'w chynnal gan y Gymdeithas ar Fawrth 17eg.



**Pen-blwydd**
Fore Sul, Chwefror 19eg, yn y te ar ôl gwasanaeth y bore cafwyd cyfle i ddathlu pen-blwydd Mr Eric Hall yn 90 oed. Yn anffodus doedd Eric, na Gaenor ei briod, ddim yn gallu bod gyda ni oherwydd gwaeledd, ond fe gawson ni gyfle i anfon ein dymuniadau gorau atyn nhw eu dau drwy Mabli, eu merch, tra'n mwynhau bob o ddarn o gacen oedd wedi ei pharatoi ar gyfer yr achlysur gan Mrs Dwysli Peleg-Williams.

**Yr Ysgol Sul Unedig**
Gwasanaeth Gŵyl Ddewi
Bore Sul, Mawrth 5, hyfryd oedd gweld plant yr Ysgol Sul Unedig yn dod at ei gilydd yng Nghapel y Garn i gynnal gwasanaeth Gŵyl Ddewi dan arweiniad y ParchRichardLewis.







Mwynhau te prynhawn ar ddydd Gŵyl Ddewi yn festri'r Garn

## Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd

Y Dydd Gwener cyntaf ym mis Mawrth bob blwyddyn yw dyddiad Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd. Bydd y gwasanaeth yn cael ei lunio gan chwiorydd gwlad wahanol bob tro ac yna yn cael ei ddosbarthu i chwiorydd ledled y byd i'w ddathlu ym mhedwar ban y byd ar yr un pryd. Eleni chwiorydd Ynysoedd y Philipinas oedd wedi llunio'r gwasanaeth a'r thema oedd "Ydw i'n annheg â thi?" Yn ardal Bow-Street a Llandre bydd Capel Noddfa, Capel y Garn ac Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn yn cydweithredu i'w gynnal a phob un o'r tri addoldy yn ei dro yn gartref iddo. Tro Capel Noddfa oedd hi eleni. Yn y llun gwelir aelodau o'r tair eglwys a gyfrannodd at y gwasanaeth.

## Help Llaw

Ddydd Gŵyl Ddewi roedd aelodau cymdeithas Help Llaw wedi trefnu te prynhawn i godi arian tuag at ffoaduriaid o Syria. Daeth nifer dda iawn o bobl ynghyd i fwynhau'r arlwy helaeth oedd ar y byrddau ac roedd naws ddymunol a chyfeillgar y digwyddiad yn arwydd o'r gefnogaeth sydd i'r achos. Codwyd dros £650 i'w drosglwyddo i Aberaid. Mawr yw ein diolch i Help Llaw am wneud hyn.



Yr awdures Manon Steffan Ros, gydag Alan Wynne Jones, Cadeirydd Cymdeithas Lenyddol y Garn, a'r Athro Gruffydd Aled Williams.




Llun o'r rhai a gymerodd ran yn y gwasanaeth yng Nghapel Noddfa brynhawn Gwener, 3 Mawrth - yn aelodau o Gapel y Garn, Capel Noddfa ac Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn







Ysgol dop Rhydypennau gyda Mrs Gwenda James a Mrs Bethan Jones. Diolch i Susan Herron (née Evans) am y llun yma mae yr enwau fel yr oeddent ar y pryd.

Rhes flaen, Geraint Connor,Andrew Jenkins, Jonathan Griffiths, David Leggett, Andrew Jones, Sion England.

Rhes ganol Cheryl Morgan, Pippa Jones, Catrin Arthur, Elen Watkin, Sioned Williams, Philip Gay, Lowri Jones, Susan Edwards.

Rhes gefn, Caren Fleming, Imogen, Kristian Hinge, Manon Wyn, Katie Miles, Catrin Haf Davies.

# Cae Baker

Diolch i Mr Gwynfor Hughes, Tongwynlais, am y llun isod o dîm pêl-droed Y Piod ym 1939.

Rhes ôl :- Raymond Roberts (ewythr Gaenor Jones); Gwynfor Hughes; ? ; Idris Magor; Wyn Ellis; Trefor Lewis (tad Kathleen); Alcwyn Magor; ? ; Merfyn Dafis (cefnogwr brwd ac ewythr Llinos Dafis); Bill Pritchard (gofalwr y Neuadd / YMCA).

Rhes flaen :- ? ; John Rees (brawd Emlyn); ? ; Elfed Morgan (tafarn y Black Lion); Dewi Davies (Man Teg).

Hyd y gwn i, dim ond Raymond Roberts a Gwynfor Hughes o dîm '39 sydd yn fyw heddiw.

Tynnwyd y llun ar Gae Baker. I roi ychydig o gefndir, Cae Baker yw safle bresennol Ysgol Rhydypennau. Benji Baker oedd perchennog Fferm Rhydypennau. Yn ôl fy nhad fe oedd yn pwyso, prynu a gwerthu moch yn yr ardal. Dylid cofio bod y rhan fwyaf o dai - yn enwedig ym Mhenrhiw a Nantyfallen - yn cadw mochyn neu ddau bob blwyddyn, yn bennaf at ddefnydd y cartref, ond yn gwerthu ambell un. Roedd twlc ar ben ucha gerddi'r tai hyn i gyd yn negawdau cynnar y ganrif ddiwethaf. Byddai'r pentrefwyr a'r ffermwyr yn cerdded y moch ar y ffordd at Fferm Rhydypennau i'w pwyso. I ddyfynnu fy nhad - "clymu rhaffen am goes ôl y mochyn ... ac fel dech chi'n gwybod, os felyddith mochyn am fynd yn ei ôl, yn ei ôl yr eiff e." Tipyn o bantomeim ar yr hewl, weden i, ond roedd ceir modur yn bethau prin bryd hynny. Wedi cyrraedd fferm Rhydypennau byddai Mr Baker yn pwyso'r moch a'u gwerthu y dydd Llun canlynol yn y mart yn Aberystwyth. Roedd ganddo ryw anffurf corfforol ac o'r herwydd byddai yn eistedd ar gadair yn ei gart a phoni y tu allan i'r wal a'r dafol (glorian) wedi ei gosod dros y wal a'r mochyn yr ochr draw. Tipyn go lew o strancio, rhochian a gwichian cyn cael y dafol yn wastad, a Benji yn fyr ei amynedd. Yn ôl pob sôn, roedd Mr Baker yn dipyn o gymeriad ei hun - ac adar go frith yn gweithio iddo - tramps yn bennaf. "Roedd staff Benji yn newid bob wythnos", medde 'nhad.

Gyda llaw, rhiw Baker oedd yr enw cyfarwydd ar y codiad tir rhwng Rhydypennau a Phen-y-garn. Felly, fe adawodd ei farc, nid yn unig ar y moch, ond ar yr ardal, a thrueni fyddai i'r enwau fynd i ddifancoll.



**Meinir Lowry**

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Mae'n bleser gan y Cyngor gyhoeddi bod chwech o feinciau newydd yn cael eu dosbarthu ddiwrnod ar ôl y cyfarfod, sef 24 Chwefror, i'w casglu o iard Rogers and Taylor. Cytunodd y Cyng Rowland Rees i'w storio yn Brysgaga, hyd nes gellir sicrhau ymgymerwr i'w gosod. Dywedodd y clerc fod un ymgymerwr wedi dangos diddordeb. Ar hyn o bryd bwriedir gosod pump o seti yn y lleoedd canlynol -Pen-y-Garn, Caerfelin, dwy o gwmpas Clarach, a Maesafallen. Cedwir un wrth law.

Bwriedir atgyweirio y rhai sydd mewn cyflwr gweddol.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth un o drigolion Maesafallen yn cwyno am gyflwr y sedd sydd ar ben y ffordd a'r tyfiant gerllaw sy'n atal cerddwyr ar y pafin a'r golygon i gerbydau sydd am fynediad i'r ffordd fawr. Yn y cyfamser deallir fod y Cyngor Sir am glirio y gor-dyfaint. (Gwelwyd tri o ddynion cotiau melyn yn tystlygadu y fangre, ond heb wneud dim, hyd yma).

Arwyddwyd sieciau sydd yn ddyledus i'r Cymdeithasau a'r Mudiadau y penderfynwyd rannu rhoddion iddynt yn y cyfarfod diwethaf. Cytunwyd ar gydnabyddiaeth y Clerc, a'i dreuliau 2016-17. Telir tanysgrifiad Un Llais Cymru am 2017-18. Diolchwyd i Mr Trefor Jones am ei wasanaeth yn torri'r porfeydd, a chynnig y gwaith iddo eleni eto.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Hinge fod yr ymgyrch rhag cŵn yn baeddu wedi cael cyhoeddusrwydd da, a bod trefnwyr Maes Chwarae Rhydypennau wedi diolch iddo, ym mysg eraill. Bydd cyfarfod o PACT ar 15 Mawrth.

Mae Ysgol Rhydypennau mewn cyfyng gyngor parthed y ffens o gwmpas rhan o'r ysgol, gan nad yw i fyny i safon iechyd a diogelwch ar hyn o bryd. Fe gyst clirio yr un bresennol a gosod un newydd o gwmpas £7500. Nid yw'r adran ystadau am gyfrannu dimai. Yn ôl addewid Cyngor Tirymynach, sef cyfrannu tuag at unrhyw fater o frys i'r ysgol penderfynwyd ar addewid o £2,500.

Eglurodd y Cyng Hinge ar sut y lleolir llwybrau diogel o gwmpas pont y rheilffordd ar ffordd Clarach, gosodir marciau lliwgar ac arwyddion blaenoriaethu un bob ochor i'r bont. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod mis Mawrth a'r ffordd ar gau rhwng 9.15 a 3.15.

Adroddwyd bod cyfarfod agored i drafod dyfodol Neuadd Rhydypennau, yn y neuadd ar 6 Ebrill. Bydd cystadleuaeth Aredig ar gaeau Gogerddan ar 25 Mawrth.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Cyng Sian Jones, a bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau, 30 Mawrth am 7.30.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

# Anrhydeddu dwy am eu cyfraniad i'r Gymraeg



Anrhydeddwyd dwy sydd wedi treulio rhan helaeth o'u hoes yn gweithio ym maes Cymraeg i Oedolion mewn seremoni arbennig yn yr Hen Goleg, Aberystwyth, nos Fawrth 7 Mawrth. Caiff cyfraniad oes Felicity Roberts a Jaci Taylor ei gydnabod fel rhan o'r Gwobrau Dydd Gŵyl Dewi cyntaf erioed i'w trefnu gan y Brifysgol.

Yn wreiddiol o Chwilog, ger Pwllheli, mae Felicity wedi bod yn dysgu Cymraeg i oedolion yn Aberystwyth ers 1968. Yn ardal Birmingham y cafodd Jaci ei geni ond fe ddechreuodd ddysgu Cymraeg ar ôl symud i Aberystwyth ym 1980, cyn dod yn diwtor ei hun ym 1984. Y gwestai gwadd ar noson Gwobrau Dydd Gŵyl Dewi oeddd Ian Gwyn Hughes, Pennaeth Cysylltiadau Allanol Cymdeithas Bêl-droed Cymru a chyn fyfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cyflwynodd wwobrau i gyfanswm o saith o bobl mewn chwe chategori gwahanol.

Derbyniodd pob un o'r enillwyr englyn personol gan Eurig Salisbury, bardd a nofelydd sydd hefyd yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd y Brifysgol. Adran Gwasanaethau'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth drefnodd y seremoni wobrwyo, dan arweiniad y pennaeth Mari Elin Jones.

"Mae yna nifer o bobl ar hyd a lled y Brifysgol, yn aelodau staff ac yn fyfyrwyr, sydd yn gwneud gwaith pwysig iawn i hyrwyddo'r Gymraeg. Maen nhw'n hybu ac yn annog, yn cyfieithu ac yn cynorthwyo, ac yn amlygu'n ddyddiol pa mor allweddol yw'r iaith. Trwy gynnal Gwobrau Dydd Gŵyl Dewi, rydyn ni'n gallu dangos ein gwerthfawrogiad o'u hymdrechion a dod at ein gilydd i ddathlu'n diwylliant," dywedodd.

**Cefndir Felicity Roberts**

Magwyd Felicity ym mhentref Chwilog ger Pwllheli ar aelwyd Gymraeg. Ar ôl gadael yr ysgol, fe aeth i'r Coleg Normal ym Mangor i ddilyn cwrs hyfforddi athrawon ac ennill rhagoriaeth mewn egwyddorion ac ymarfer dysgu. Symudodd i Aberystwyth yn 1967 a'r flwyddyn ganlynol, fe ddechreuodd ddysgu Cymraeg i oedolion.

Yn ystod y 1970au, aeth ati i ddysgu iaith ei hun - Llydaweg i ddechrau, yna Gwyddeleg - cyn dilyn cwrs gradd mewn Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gweithiai fel tiwtor rhan amser yn ystod y cyfnod hwn ac yn 1980, cafodd ei phenodi yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg Prifysgol Aberystwyth, ac yn ystod ei 27 mlynedd yno dilynwyd ei modiwl poblogaidd Crefft Adfer Iaith gan sawl un a ddaeth yn adnabyddus iawn ym maes Cymraeg i Oedolion.

Yn gynnar yn yr 80au sefydlwyd CYD gan grŵp bach o bobl, a Felicity yn eu plith. Mudiad oedd hwn a ysbrydolwyd gan Yr Athro Bobi Jones i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg rhwng siaradwyr rhugl a dysgwyr mewn gwaith a hamdden. Mae Felicity wedi bod yn Drefnydd Côr CYD Aberystwyth ers blynyddoedd ac mae galw cyson am wasanaeth y côr yn yr ardal o hyd.

Yn 2006, fe gwblhaodd MA mewn Gwyddeleg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn 2007, fe'i penodwyd yn Diwtor Drefnydd gyda Chanolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol Aberystwyth. Ar hyn o bryd mae'n tiwtora 12 awr yr wythnos ac yn Gydlynydd Cwrs Haf Dwys Cymraeg Prifysgol Aberystwyth sydd yn rhedeg drwy fis Awst ac yn denu pobl o bedwar ban y byd.

**Cefndir Jaci Taylor**

Yn ardal Birmingham y cafodd Jaci ei geni. Fe symudodd i Gymru ym 1974, gan ymgartrefu yn Aberystwyth yn 1980 a dechrau dysgu Cymraeg. Bu'n mynychu dosbarthiadau Felicity Roberts, ynghyd â thiwtoriaid eraill, ac erbyn 1984 roedd wedi sicrhau Lefel O Cymraeg Ail Iaith. Yn fuan wedyn, daeth yn diwtor Cymraeg ei hun gan weithio yn y Brifysgol a Chyngor Sir Ceredigion. Bu'n gyfrifol am drefnu a chynnal cyrsiau dwys yng Ngholeg Addysg Bellach Ceredigion yn ogystal.

Roedd Jaci yn un o sylfaenwyr CYD yn y Canolbarth yn y 1980au, yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg wrth sgwrsio gyda siaradwyr rhugl. Cafodd ei phenodi'n Gydlynydd CYD yn 1996 ac yna'n Gyfarwyddwr, a bu yn y swydd tan 2007. Yna fe'i penodwyd gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol Aberystwyth fel Swyddog Datblygu yn gyfrifol am farchnata a dysgu anffurfiol am gyfnod o ddeng mlynedd cyn ymddeol ym mis Ionawr, 2017.

Yn ei hamser hamdden, mae Jaci yn ffotograffydd brwd a defnyddiai ei lluniau'n aml yn y cylchgronau cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr y bu'n olygydd arnynt, sef *Cadwyn CYD* a'r *Ddraig Werdd*. Mae hi hefyd yn hoff o arddio, teithio, gwaith DIY a choginio.

Wrth ein dysgu i rannu'r iaith - a'i byw hi,
Cawsom bawb eich gobaith;
Os tyf hedyn ond un waith,
Fe egina'n gryf ganwaith.

Eurig Salisbury

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

**SWYDDOG AELODAETH A CHYLLID**

Mae UCAC yn chwilio am berson brwdfrydig a medrus i ymuno â'n tîm gweithgar.

Prif waith y **Swyddog Aelodaeth a Chyllid** fydd arwain ar faterion aelodaeth a bod yn gyfrifol am faterion cyllid yr undeb o ddydd i ddydd.

Cyflog cychwyn yn y swydd: £24,533
Ceir ffurflen gais, disgrifiad swydd a manylion pellach o Swyddfa UCAC.

**Dyddiad cau: 24 Mawrth 2017**
**01970 639950 | ucac@ucac.cymru**
**www.ucac.cymru**

# Rhai atgofion Emlyn Rees, Bodowen am 'waelod y pentre' Bow Street

**Fe'u nodwyd mewn sgwrs gyda Vernon Jones, 28 Mehefin 2011 – Rhan 2**

I mewn dros bont y rheilffordd ar ffordd Clarach, roedd melin lifio, dan yr enw Melin Ruel. Mae cyfeiriad at "mill" yma mor bell yn ôl a 1284, wedi concwest Llywelyn Ein Llyw Olaf, pan rannwyd y tir gan Frenin Lloegr i'w arglwyddi. Yn uwch i fyny yn rhos Bryncastell roedd llyn wedi ei chronni gyda llidiart yn rheoli'r dŵr. Byddai dwy rod yn gweithio yn y felin a pheipen fawr yn dirwyn y dŵr yn ôl i nant Ceiro. Erbyn hyn mae cwrs yr afon wedi newid ac fe red yn syth gyda'r rheilffordd.

Yn Nhroed y Bryn trigai teulu Lewis. Cadwent ieir yn y cae lle mae Modurdy Eric Ellis Jones heddiw gan werthu wyau i'r pentref. Seiri certi oedd y teulu, yn arbenigo ar wneud olwynion. Estynnai'r gweithdai i fyny at Efail Fud heddiw. Yno y cadwai Mrs Carson, mam Eric Carson y swyddfa bost. Ond yn y drws nesaf y lleolwyd yr efail a wnâi gylchoedd i'r olwynion. Pan brynodd T Elwyn Williams y swyddfa bost yn y pumdegau troes yr hen efail yn swyddfa ddosbarthu llythyron (lle mae'r swyddfa bost heddiw gan John a Maria).

Ar un adeg roedd yma ddau fotor beic a sidecar i ddosbarthu llythyron i ardaloedd Penrhyn-coch a Phen-bont Rhydybeddau. William Hughes (tad Gwynfor Hughes, Caerdydd) oedd un o'r postmyn, Dic Jones y llall. Bu rhaid galw Bill Hughes o'r capel un nos Sul gan fod Dic wedi cael *crash* ar ei fotor beic!

Hen deulu cynhenid y pentre oedd yn Gwelfryn, Dic Jenkins y masiwn, ac yn Llysmeurig trigai John James, o Drefeurig – teulu o gantorion nodedig iawn.

Codwyd y tai cyngor cyntaf yn Nhregerddan yn 1951 ac mae Eunice Fleming yno yn rhif un o'r cychwyn. Hefyd mae teulu y Parchg W J Edwards, Trefor Lewis a Maud Phillips. Gan ddilyn y ffordd fawr i fyny. Captain James, oedd y Bodina, ond newidiwyd yr enw i Gezira, pan ddychwelodd teulu Lewis Peithyll o'r Aifft. Tai pridd oedd y gwreiddiol gyferbyn ac i fyny at Spring Cottage lle trigai Miss Clayton a Mrs Pugh o Aberdyfi. Yno y treuliodd y Prifardd John Evans, Llanegryn y nos cyn ennill y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth ym 1951. "Rhaid i fi fynd yn fore heddiw" meddai wrth mam Dai Pugh.

Is Gaer oedd Gaer Villa yn yr hen amser. Fferm fechan yn cael ei rhedeg gan Jenkins Is Gaer. Cadwai hyd at 5 buwch, ceffyl a moch. Rhentiai fflats Rhydhir a'r caeau lle mae'r Garthffosiaeth heddiw. Hefyd Cae Plant, sef Caerfelin.

Roedd Cae Plant yn gae poblogaidd a chyfleus i'r plant, ond pan werthwyd rhannau o ystâd Gogerddan prynwyd y cae gan Gyngor Dosbarth Aberystwyth, ac yn eu doethineb, neu diffyg doethineb, penderfynwyd ei fod mewn lle rhy beryglus i blant, ac wrth gwrs roedd eu llygaid ar ddatblygu'r cae. Yn dilyn hyn llwyddwyd i rentu darn o dir oddi wrth y Brifysgol, a oedd erbyn hyn yn perchen ystad Gogerddan. Felly rhan o Cae Llety yw Cae Chwarae Tregerddan heddiw.

Ysgoldy Fach Lady Pryse oedd yn wreiddiol lle mae fflatiau Tregerddan heddiw. Laundry Gogerddan oedd rhan o hon, ond cadwai "Mistres" sef Mrs Jones Glan-nant ysgol i blant bach, rhyw fath o ysgol feithrin gynnar a châi ei thalu gan y rhieni. Erbyn y pumdegau dyma oedd



Seremoni agor 12 tŷ cyntaf stad newydd Tregerddan, gan Mrs R.L.Thomas, Bronwydd (Brysgaga gynt), yn Hydref 1951. Gweler hefyd erthygl y Parchg W. J. Edwards, yn y Tincer 360 (Mehefin 2013) t.20 Diolch i Maud Phillips am gael benthyg y llun.



Dyma lun arall gan John Meurig Edwards o'r Bwstryd.



Diolch i Llinos Dafis am ddau lun - hwn o Garthlwyfen - tua 1912. Eluned, mam Llinos, a'i dau frawd Ifor a Merfyn yw'r plant. Ganwyd Ifor yn 1904, Eluned yn 1907 a Merfyn yn 1911. John Meurig Edwards, brawd mam-gu Llinos dynnodd y llun.

ystafell newid Clwb Pêl-droed Bow Street.

Un o'r tai nesaf oedd cartref Tom Magor y March. Ef oedd yng ngofal march y plwyf a gedwid yn Gogerddan. Yn ardal Rhydyfelin roedd Jim Hughes, Cefn Coch, hefyd yn trafaelu march, a champ oedd cadw'r ddau hyn oddi wrth ei gilydd yn y Nags Head ar ddiwrnod preimin, rhag i bethau fynd yn flêr!

Cambrian yw enw un o'r tai mawr yn y gymdogaeth hon. Rhoddwyd yr enw arno oherwydd yma y treuliai'r bobl y nos cyn mynd i ddal trên cynnar yn yr orsaf am bellteroedd Lloegr. Drws nesaf yn Glan-nant trigai Mistres y soniwyd eisoes amdani. Gwerthai baraffin a chadwai Meddygon y Borth eu meddygfa yma.

Beudy Mari Roberts oedd ar safle Spar, hefyd roedd yma dai bychain a elwyd gan y plant yn tai rhacs. Prynodd T Elwyn Williams y safle oddi ar Ystad Caergywydd ar ddechrau'r pumdegau a chodi siop T Elwyn Williams. Bu'n rhedeg busnes lewyrchus yn Hendre Stores, Waunfawr ac yma yn Bow Street cyn ymddeol i ffermio yn Llanilar, a gwerthu'r busnesoedd i'w weithwyr. Ronald Roberts ddaeth yn berchennog siop Nantafallen, ac mae ei deulu yn parhau i'w rhedeg. Yma yn Nantafallen ar ddiwedd ei oes, y trigai "Johnny Tins" a'i deulu, sef tad Tom Macdonald o enwogrwydd "Y Tincer Tlawd".

Tai pridd gwyngalchog hardd oedd o Nantafallen i fyny dros Penrhiw i gornel Cross Street. Yn ddiweddarach rhoddwyd yr enw Cymraeg Y Lôn Groes iddi, er mai Lôn y Groes fyddai'n gywir oherwydd mewn rhyw oes roedd yna groes ar ben lôn Brysgaga yn dynodi lle lladdwyd Cristion o'r enw Agam gan anwariaid.

Bu gweithdai crydd yn Arwel ac yng Nghlydfan gan deulu'r Pritchards o dro i dro. Siop nwyddau pob peth yn Tŷ Moc Bach, ac am flynyddoedd cadwyd y siop i fynd gyda'i weddw Ada Owen. Drws nesaf yn Llys Eifion bu Wyn a Doreen Ellis yn cadw siop gwerthu papur newydd a phapur dydd Sul, hufen ia a phop. Bu Wyn yn ysgrifennydd Clwb Pêl-droed Bow Street am flynyddoedd ac yn enwog am gael bechgyn a ddisgwyliai eu "di-mob" mewn gwersylloedd adref i chwarae ar benwythnos. Gyrrai delegram – "Come home aunty seriously ill"!

Yn ôl i Nantafallen ac i'r lle mae Afallen Deg heddiw. Cyn yr Ail Ryfel Byd cadwai'r Cyngor defnyddiau atgyweirio ffyrdd yma megis cerrig a shipins. Yn ystod y rhyfel codwyd cabanau ar gyfer merched Byddin y Tir, Land Army. Daeth merched yma o bob rhan o'r wlad a phriododd rhai ohonynt fechgyn lleol wedi'r rhyfel. Hefyd bu yma ar yr un pryd *depot* i'r War Ag, peiriannau amaethyddol yn dractorau ac erydr, a pheiriannau dyrnu gyda nifer




o fechgyn lleol yn eu trafod. Wedi'r rhyfel addaswyd y cabanau yn fflatiau a bu nifer o deuluoedd sy'n dal i fyw yn y pentre yn cychwyn eu bywyd yno. Yn ddiweddarach taflwyd y fflatiau i lawr a chodi yr Afallen Deg yn bresennol yn nechrau'r saithdegau.

I fyny ar y rhiw lle mae bwthyn Meinir Lowry, ar ôl pasio'r tai cyngor cyntaf yn yr ardal, roedd iard Tomi John, ac yno y tyrrai plant y pentre i'w diddori gan ryfeddodau y fferm fechan hon. Ond roedd T J Hughes, tad Meinir yn gontractiwr fel ei dad, yn berchen tair lorri, 3 cheffyl a dau dractor ar un adeg. Un o'r ceffylau oedd "Flower" a dyma'r ceffyl a dynnai'r hers yn yr ardal. Cadwyd yr hers mewn sied ar lôn Llwyngronw, Penrhyn-coch. Dywedir am Flower ei bod yn cadw ei phen i fyny bob amser wrth dynnu certi, ond wrth dynnu hers daliai ei phen ar dro, fel o barch i'r ymadawedig. Roedd hen feudy a sied wair yr Iard neu Neuadd, cartref T J Hughes a'i deulu bron gyferbyn â'r mynediad heddiw i Maes Afallen - stad a adeiladwyd ar ddechrau'r saithdegau ar gae yr Hughesiaid.

Pwysleisiodd Emlyn Rees droeon yn ystod y sgwrs fod yna dipyn o wahaniaeth cymdeithasol rhwng trigolion gwaelod y pentre, hynny yw i lan at Cross Street, a'r "bobol fawr" o Cross Street at Ben y Garn a Rhydypennau. Byddai sôn am "blant gwaelod y pentre" fel tasent yn radd is na'r lleill, a phob Nadolig a Phasg byddai'r Capel Bach (chwedl pobl y Garn) - Capel Noddfa bellach - yn rhoi te parti i "blant y gwaelod" - o ba bynnag enwad!

Ond roedd llawer o garedigrwydd yn perthyn i drigolion y ddwy gymdeithas. Yn ystod Streic Fawr y Sowth, casglwyd llond tryc rheilffordd o fwyd (tatw a chynnyrch fferm yn fwy na dim) drwy drefniant Capel y Garn, a'i yrru am y De i borthi teuluoedd y miners.

Hefyd byddai pobl Bow Street yn casglu eu cynnyrch sbâr o'u gerddi ar amserau arbennig a'u cludo i'r Elms, (Garth Lwyfen heddiw) lle byddai Dei Davies (y crefftwr cerrig beddau) yn trefnu i fynd â nhw i Ysbyty Aberystwyth, cyn dyddiau'r NHS.

Vernon Jones, Gorffennaf 4, 2011

# Eira 1947

**Bu hel atgofion yn ddiweddar ar Radio Cymru ar eira 1947. Ddyma atgofion oedd gan yr Athro Gruffydd Aled Williams.**

Roeddwn i'n blentyn tair oed adeg Eira Mawr 1947, yn byw yng Nglyndyfrdwy rhwng Corwen a Llangollen yn yr hen sir Feirionnydd. Roedd yn ddigwyddiad mor drawiadol fel fy mod yn dal I gofio'r bore Sadwrn pan ddechreuodd fwrw eira. Fel yr oedd y plu eira'n dechrau disgyn mi gofiaf weld drwy'r ffenest wiwer goch yn rhedeg ar draws yr ardd—un o'r ychydig droeon erioed imi weld yr anifail hwnnw—a'r un bore fe alwodd pedler wrth y drws yn gwerthu llestri! Fe barodd yr eira am ddeng wythnos, ac oherwydd dyfnder y lluwchfeydd eira ychydig iawn y bûm i allan yn ystod y deng wythnos hynny. Yn ystod yr wythnosau o aros yn y tŷ y dysgais i ddarllen! Roedd chwarel ar fynydd y Berwyn uwchlaw Glyndyfrdwy ond nid oedd modd i'r chwarelwyr gyrraedd eu gwaith. Ond buont wrthi yn galed yn ceisio cadw ffyrdd yr ardal ar agor. Ond roeddem wedi ein torri ffwrdd o'r byd mawr i bob pwrpas. Gan nad oedd bwyd yn cyrraedd siopau'r pentref, bu'n rhaid dogni bwyd. Aeth fy nhad i'r siop I brynu bwyd un tro, ond ni châi neb brynu mwy na gwerth 3s/6d o fwyd. Fe gafwyd cwymp eira (afalans) yn yr ardal hefyd, gyda'r eira yn rhannol chwalu un tŷ a oedd yn sefyll ar lechwedd. Cafodd ffermwyr yr ardal lawer o golledion, gyda'r defaid yn marw o dan yr eira. Ond roedd hanesion hefyd am ambell ddafad yn goroesi ar ôl wythnosau o dan y lluwchfeydd.

Porchell
Eich cigydd lleol
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

# MADOG, CAPEL DEWI A CEFN-LLWYD

### Suliau Madog 2.00

*Mawrth*

19 Bugail

26 Cyfarfod gollwng y Parchg Wyn Morris am 5.00 yn y Garn

*Ebrill*

2

9 Y Parchg Elfed ap Nefydd Roberts

16

23 John Tudno Williams

30 Rhidian Griffiths

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Ray a Tudor Evans, Dewi Villa, ar farwolaeth mam Ray – Mrs Megan Davies o Lan-non; hefyd â theulu y diweddar Mr Ken Owen, Kenver, Cefn-llwyd.

### Cynllunio bag

Eleni, bydd Merched y Wawr yn dathlu'r aur -aeth hanner can mlynedd heibio ers sefydlu'r mudiad. Fe fydd yna ddathlu ar hyd y flwyddyn ond fel cam cyntaf bydd pob aelod o Ferched y Wawr yn derbyn bag am ddim fel gwerthfawrogiad o'u haelodaeth. Ruth Jên -Tal-y-bont (a Chefn-llwyd gynt) - gynlluniodd y bag ac roedd yn falch i gael y comisiwn gan bod llawer o'r aelodau yn gwsmeriaid selog iddi ac yn amlwg yn hoff iawn o'r 'ladis Cymreig'. Yn y llun mae Ruth yn dal cynllun






**Siân Mari Evans o Gefn-llwyd wedi ennill atlas a jig-so ar raglen ar S4C bore Sadwrn wrth chwarae y gêm Tref a Tryst.**

o'r bag ac yn dangos un ohonynt i Enid Gruffudd, aelod o gangen Tal-y-bont.

### Eira mawr 1947

Mewn ymateb i'r rhifyn diwethaf o'r *Tincer,* ynglŷn â'r eira mawr 1947 yng Nghapel Madog, rwyf i Eirian (Lluest Fach) yn digwydd bod yn adnabod Valmai Castledine ac yn cael sgwrs fach gyda hi yn weddol aml dros y ffôn, ac mae yn sôn llawer wrthyf am yr eira mawr a gafwyd y gaeaf hwnnw – ac yn gobeithio y byddai wedi diflannu cyn diwrnod ei phriodas.

Yr oedd yn sôn wrthyf fod fferm Gelli Fadog sydd ochr isaf i'r Capel yn cadw defaid yn y cae wrth wal y Capel, ond nid oedd sôn amdanynt pan aeth y ffermwr i chwilio am ei ddiadell. Roeddent wedi cael eu claddu dan y lluwch eira, ond yn lwcus iawn ar ôl tyllu yn hir iawn roeddent i gyd yn fyw, a diolch am hynny meddai Valmai.

Felly roedd y tywydd wedi gwella tipyn erbyn hyn, dim on tamaid o eira oedd ar y llawr ac fe briododd Valmai a John ar y 3ydd o Fai am 9.30 y bore yng Nghapel Madog a chael brecwast priodas yn Wynne Owen, Aberystwyth. Roedd fy mam wedi cael gwahoddiad i'r briodas.

Roedd Mr a Mrs Roberts (tad a mam Valmai) yn ofalwyr y Capel ac yn fawr eu parch yn yr ardal. Mae Valmai yn 94 oed a John yn 98 oed, ac mae'r ddau yn edrych ymlaen at ddathlu pen blwydd eu priodas 70 mlynedd, gobeithio, ar Fai 3ydd 2017.

Pob dymuniad da i'r ddau.

Eirian

### Ffon Pared Aberystwyth

Un o hoff baratoadau Sion Jobbins wrth drefnu'r Parêd ydy dewis un o'r ffyn crefftus hardd gan Hywel Evans, Capel Dewi. Yn y llun gyda Hywel Evans mae Owain ac Elliw Jobbins. Cyflwynir y ffon gerdded fel arwydd o barch a diolch i'r Tywysydd, sef, eleni, Glan Davies. Traddodiad o Wlad y Basg yw cyflwyno ffon gerdded.



# DOL-Y-BONT

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â phriod a theulu y diweddar Dave Stewart, Glen Avon. Bu farw Dave ddiwedd mis Chwefror wedi dipyn o salwch.

# GOGINAN

### Pob lwc

Dymuniadau gorau i Efan Roberts, Penbryn, pan fydd yn cynrychioli Dyfed yng Nghystadleuaeth Trawsgwlad Cymru yn Aberhonddu; llongyfarchiadau iddo hefyd am fod yn aelod o Academi Aberystwyth yn y byd pêl-droed.

### Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Huw a Jane Jones ar ddathlu eu Priodas Arian ym mis Chwefror.

### Llwyddiant

Unwaith eto mae tafarn y Druid wedi dod i'r brig fel y Dafarn Orau yng Ngheredigion am weini Cwrw Iawn. Fe fydd yna gyflwyniad yn cael ei wneud yn ystod Mis Mawrth.

# Cystadleuaeth adloniant y Sir

**CFfI Tal-y-bont a'r Cylch yn fuddugol**

Tro'r hanner awr o adloniant oedd hi eleni ar ei newydd wedd sef 'Cynulleidfa gyda...' ac fe aeth y clwb ar drywydd bywyd Dai Jones, Llanilar. Mae Dai'n gymeriad rydyn ni i gyd yn ei adnabod ledled Cymru ac fe wnaeth Elen Pen-cwm ysgrifennu sgript oedd yn portreadu bywyd a gyrfa'r dyn ei hun. Fe wnaeth y cast o 28 aelod, gyflwyno'i hanes, o'i wreiddiau yn Llundain, ei yrfa yn cyflwyno, canu a pherfformio a'r hyn sydd wedi ei wneud yn un o enwogion amlycaf Cymru. Buom yn cystadlu yn Felin-fach a llwyddon i ennill y gwobrau canlynol:

2il am y sgript orau

1af am y cynhyrchydd gorau

Actor gorau o dan 26ain – Dewi Jenkins, Tynygraig

1af am y Perfformiad gorau

Roedd hyn yn golygu taith i Bort Talbot i gystadlu yng Ngwledd o Adloniant CFfI Cymru. Aeth y criw ar fws a llwyddo i ennill y gystadleuaeth gyda Dewi yn ennill y wobr am y 'perfformiwr mwyaf addawol' dros Gymru. Mae'r clwb yn falch iawn o'u llwyddiant a hoffem ddiolch o waelod calon i bob un aelod, y tîm cynhyrchu ac i bawb fuodd ynghlwm â'r daith anhygoel yma.

## Colofn Enwau Lleoedd

Mewn cilfach gysgodol islaw Banc Mynyddgorddu, ychydig i'r gogledd-orllewin o bentref Bont-goch, mae adfeilion tŷ annedd *Ffynnonwared*. Derbyniodd ei enw oddi wrth ffynnon sydd wedi ei lleoli ychydig i'r gogledd-orllewin. Ymddengys bod y ffynnon yn ddigon adnabyddus i gael ei chynnwys yng nghyfrol Francis Jones, *The Holy Wells of Wales* (1954, t. 163), er mai prin yw'r wybodaeth a gofnodir amdani.

Ond beth yw arwyddocâd ail elfen yr enw?

Mewn erthygl yn trafod 'Dafydd ap Gwilym yn ei Fro' yn *Y Traethodydd* (1978; t.87), hola'r Dr. David Jenkins a oedd cysylltiad rhwng *Gwilym ap Gwrwared*, un o hynafiaid y bardd o Frogynin, a *Ffynnonwared*, gan awgrymu felly mai talfyriad o'r enw personol *Gwrwared* sydd yma.

Yn ddiweddar, dyfarnwyd gwaith Richard Huws, 'Enwau Diflanedig Bont-goch', yn fuddugol mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd gan Gymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Yn y gwaith hwnnw trafodir yr enw *Ffynnonwared* a chynigir mai'r enw *gwa(e)red* yn golygu 'llethr neu lechwedd' yw'r ail elfen, a hynny oherwydd natur serth y lleoliad.

Petai *gwa(e)red* yn enw, disgwylid *Ffynnonygwared*, neu *Ffynnongwared* (heb dreiglad), ond o'i ddehongli fel ansoddair, yn golygu 'llechweddog neu serth' o bosibl, byddai treiglad yn ddisgwyliedig. Serch hynny, er bod y ffynnon mewn lleoliad llechweddog, nid yw'n amlwg pam y byddid yn disgrifio'r ffynnon ei hun fel un serth.

Dilyn trywydd cwbl wahanol wna Iwan Wmffre yn ei gyfrol *The Place-Names of Cardiganshire* (2004; t.1135). Mae'n ymdrin â'r enw fel *Ffynnonwareg* a hynny ar sail sillafiad tair enghraifft o'r cofnodion plwyf rhwng 1802 ac 1821, a thystiolaeth lafar y diweddar Edgar Humphreys, Tal-y-bont. Ni fu modd esbonio'r elfen dybiedig *gwareg* yn foddhaol, fodd bynnag.

Chlywais i erioed neb yn defnyddio'r ffurf *Ffynnonwareg*, ac er i mi holi amryw o drigolion lleol, ni lwyddais i ddod o hyd i dystiolaeth bellach ohoni.




*Map Degwm Llanfihangel Genau'r-glyn (cynefin.cymru)*

*Fynnon warred* yw'r ffurf a nodir ar 'Surveyor's Drawings' yr Arolwg Ordnans (1833) a *Ffynnon wared* sydd ar y Map Degwm (1845). Ffurfiau digon tebyg a gofnodir ym mhapurau newydd diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Rwy'n ddiolchgar i Richard Huws am dynnu fy sylw at enghraifft gynharach o'r enw, yn ewyllys Richard James Morgan, Ty'n-rhos, Rhydypennau (SD/1799/131), yn 1799, sydd unwaith eto'n cadarnhau mai *wared* yw'r elfen olaf:

Yn ôl yr hyn a ddeallaf, arferai R. J. Thomas, yr arbenigwr enwau lleoedd a chyn-olygydd Geiriadur Prifysgol Cymru, ddweud mai ffurf ar y ferf *gwaredu* sydd yn yr enw *Ffynnonwared*, a hynny yn yr ystyr 'gwella' neu 'iachâu'. Os felly, mae'n ymddangos y credid bod i'r ffynnon hon rinweddau iachusol, a'i bod i'w chymharu â ffynhonnau megis *Ffynnon Feddyg* ym mhlwyf Llanina, neu *Ffynnon Rhinweddau* ym mhlwyf Llannerch Aeron.

Angharad Fychan

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD
www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org



*Ffynnonwared. Llun Richard E. Huws*

**Edrychwn ymlaen at weld cyhoeddi cyfrol Richard Huws,** *Enwau Tai a Ffermydd Bont-goch (Elerch)* **(fydd yn cynnwys ymdriniaeth â** *Ffynnonwared* **ymhlith enwau eraill) yn y dyfodol agos, gyda chefnogaeth ariannol gan Gronfa Eleri.**

# Logo Newydd Clwb Gwyliau Caban Penrhyn-Coch

Daeth dau o blant Ysgol Penrhyn-coch yn fuddugol yng nghystadleuaeth ddiweddar Clwb Gwyliau Caban Penrhyn-coch i ddylunio logo newydd. Bydd cynlluniau Molly Robinson a Katelyn Jones yn cael eu plethu i gynllun newydd sbon fydd i'w weld ar faneri a thaflenni hyrwyddo y Clwb Gwyliau o fewn yr wythnosau nesaf. Llongyfarchiadau iddyn nhw, a diolch i bawb wnaeth gystadlu.

Mae'r Clwb Gwyliau mewn bodolaeth ers haf 2015, ac mae'n cynnig nifer o weithgareddau i blant rhwng 3 ac 11 oed yn ystod gwyliau ysgol. Cofiwch, mae'r clwb ar agor i unrhyw blentyn! Nid oes rhaid bod yn ddisgybl yn Ysgol Penrhyn-coch i fynychu.. Mae'n wasanaeth i'r ardal gyfan.

**Bydd y Clwb Gwyliau ar gael dros wyliau'r Pasg eleni.** Os hoffech ragor o fanylion, cysylltwch â cmtrefeurig@gmail.com neu galwch yn y Caban i siarad gyda Jackie.



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**PHYSICS, POLITICS, POETRY AND PRAYER**

**6.00, nos Wener, 17 Mawrth**

Anerchiad gan y bardd a'r gwyddonydd o'r Iwerddon Iggy McGovern.

Mynediad am ddim. Croeso cynnes i bawb!

**Cysylltwch am wybodaeth bellach: 01970-617996 neu morlan.aber@gmail.com**

*Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH*
*01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan*

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Ann Ellis, Hywelfan, ar enedigaeth ŵyr, Carn Michael Ellis- Barr, mab bach i Rhian ac Anthony a brawd i Erin. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Mike Laxton, Hafod y Glyn, ar ddathlu ei ben blwydd arbennig diwedd mis Chwefror. I ddathlu yr achlysur mae Mike a rhai o'i ffrindiau wedi bod yn gwireddu ei freuddwyd o adeiladu tŷ mewn coeden a drannoeth ei ben blwydd cafwyd agoriad swyddogol Ty'n y Dail. Galwodd tua 58 o ffrindiau a chymdogion heibio a chafwyd croeso mawr gan Mike a Gill. Mae y ddau wedi symud i'r ardal ers llawer blwyddyn ac maent wedi dod yn ffrindiau a chymdogion gwerthfawr iawn. Dyma lun o Mike yn ei dŷ arbennig Ty'n y dail.



**Cawl Blynyddol Urdd y Benywod**
Nos Fercher Mawrth 1af oedd noson Cawl Blynyddol Urdd y Benywod. Cafwyd cawl blasus iawn wedi ei baratoi gan y chwiorydd o dan ofal Norma Stephens. Cawsom adloniant gan y plant a hyfryd oedd gwrando arnynt yn canu can arbennig i ddathlu y ffaith fod Ysgol Penllwyn wedi bod ar y safle yma ers 50 mlynedd. Cafwyd datganiad hyfryd ar y Delyn gan Seren Skipp a Gwenan Hoskins, dwy seren y dyfodol yn amlwg. Diolch yn fawr i Elen Howells am drefnu yr adloniant. Yn ystod y nos cyflwynwyd siec o £325.00 i Glwb y Caban Ysgol Penllwyn, elw y noson o ganu carolau cyn y Nadolig. Wrth dderbyn y siec diolchodd Katherine Morgan yn gynnes i Urdd y Benywod am y rhodd werthfawr sydd yn ei galluogi i gario ymlaen gyda gweithgareddau Y Clwb ar ol Ysgol yma.

Diolch i bawb am y bwyd a'r gwobrau raffl.

# DOLAU

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Eric Hall, Minafon, ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ddiweddar. Hefyd gwellhad buan iddo ef a Gaenor - y ddau yn dioddef o anhwylder ar hyn o bryd. Yn y llun gwelir Mabli Hall yn torri cacen pen-blwydd ei thad, Eric Hall, ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 oed. Rhannwyd y gacen, a wnaed gan Dwysli Peleg-Williams, i bawb oedd yn bresennol yn dilyn y gwasanaeth bore Sul, 19 Chwefror, yng Nghapel y Garn.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Mark Leggett, gynt o Nantlais, a'i wraig Jenna, ar enedigaeth Lowri Ffion. Wyres fach newydd i Jane a Mike. Pawb wrth eu bodd.

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau 16eg o Chwefror yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor, gyda Jean Watson yn y gadair. Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn gwneud ymholiadau i gael meinciau newydd. Penderfynwyd yn y cyfarfod i archebu 4 mainc fydd wedi cael ei gwneud gan grefftwr lleol.

Mae'r Cyngor wedi gwahodd ceisiadau oddi wrth gymdeithasau a sefydliadau lleol am grantiau bach. Mae rhai wedi dod i law yn barod. Bydd y ceisiadau yn cael eu traddodi yn y cyfarfod nesaf.

Hoffai'r Cyngor ddiolch i bwyllgor y Neuadd am y siec o £250 a dderbyniwyd tuag at gost y diffibriliwr. Bydd y cyfarfod nesaf ar Mawrth 16eg.

*Trefnwyr Angladdau*
**C T Evans**
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â TEGWYN LEWIS
01970 880627

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# *Llun y mis*

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



**Prunus yn blodeuo yn y glaw mân**

## CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r henoed am gymorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn **31 Mawrth 2017**.

Yr ysgrifennydd yw Delyth Davies,
Bryn Siriol, Lluest Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3AU
01970 617397
martin.davies1@mypostoffice.co.uk

**Cofiwch am y cyfarfod i drafod dyfodol Neuadd Rhydypennau - nos Iau EBRILL 6 am 7.00 Dosberthir taflenni yn y dyddiau nesaf o amgylch y pentref. Gellwch gael hyd i NEUADD RHYDYPENNAU HALL ar Facebook/**


## Llais Lleol Newydd i Dirymynach



Fy enw yw Richard Lucas, a fi yw ymgeisydd Plaid Cymru yn ward Tirymynach yn etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai.

Rwyf wedi byw yn Bow Street ers blynyddoedd, gyda'm gwraig Pauline, a'm plant Mathew a Cara. Bu'r ddau yn ddisgyblion yn Ysgol Rhydypennau.

Rwy'n gefnogwr brwd o'm cymuned leol ac wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth gwirfoddol i Glwb Pêl-droed Bow Street. Ar hyn o bryd rwy'n helpu hyfforddi tîm cyntaf yr oedolion, a bûm yn hyfforddi plant y pentref yn y gorffennol.

Rwyf yn uwch-reolwr gyda'r elusen Cymdeithas Gofal, swydd sydd wedi rhoi profiad gwerthfawr i mi ym maes tai a gofal cymdeithasol. Mae gen i brofiad uniongyrchol o'r heriau wrth geisio cynnal y gwasanaethau pwysig sydd eu hangen ar ein cymdeithas, a hynny yn ystod cyfnod o doriadau llym.

Mae diogelu a gwella gwasanaethau yn y ward yn gwbl ganolog i'm hymgyrch, ac rwy'n sicr y gall fy mhrofiad, brwdfrydedd, a'm parodrwydd i dorchi llewys, wneud gwahaniaeth.

Edrychaf ymlaen at drafod materion lleol gyda chi dros yr wythnosau nesaf.

Yn gywir,
Richard Lucas


# Cylch Cinio Aberystwyth

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror o'r Cylch Cinio yng Ngwesty Llety Parc ar nos Wener, 10fed o Chwefror. Daeth nifer dda o aelodau at ei gilydd i fwynhau noson allan yng nghwmni ein siaradwr gwadd ac i fwynhau pryd blasus o fwyd.

Y siaradwr gwadd oedd bachgen lleol o Lanfihangel Genau'r-glyn, sef y milfeddyg Philip Thomas. Pan roedd yn iau, roedd yn adnabyddus fel Philip y Garej ond erbyn hyn mae yn fwy adnabyddus fel Phil y Fet. Roedd tad Phil, y diweddar Elwyn Thomas, yn rhedeg Garej Rhydypennau ac yn aelod selog o'r Cylch Cinio.

Diddorol iawn oedd gwrando ar hanes gyrfa Phil. Aeth i astudio milfeddygaeth ym Mhrifysgol Llundain. Ar ôl rhai blynyddoedd o weithio yn Llanymddyfri a Phen-y-bont ar Ogwr aeth am dair blynedd gyda'i wraig Kate, sydd hefyd yn filfeddyg, i weithio gyda Gwasanaethau Gwirfoddol yn Cambodia lle cafodd brofiadau amrywiol a diddorol iawn ymhlith y brodorion a'r anifeiliaid. Dychwelodd yn ôl wedyn i weithio yn yr Alban cyn ymuno â chwmni Milfeddygon Ystwyth yn Aberystwyth a dychwelyd at ei wreiddiau. Erbyn hyn, mae Phil a'i wraig Kate yn gyfarwyddwyr Milfeddygon Ystwyth ac mae hefyd yn gweithredu ar bwyllgorau ymgynghorol yn y maes.

Yn ogystal â bod yn filfeddyg, fel aml i dad, mae'n yrrwr tacsi i bedwar o blant ac yn aelod brwd o dîm Talwrn Tal-y-bont lle mae hefyd wedi profi ei ddawn yn trin geiriau.

Estynnwyd y diolchiadau gan Gwynfryn Evans a Gwynfor Williams enillodd y raffl.

# Ysgol Pen-llwyn

**Trip i Gaerdydd**

Uchafbwynt mis Chwefror ym Mhen-llwyn eleni oedd cael ymweld â'r brif-ddinas. Yn blygeiniol iawn ,cychwynodd llond bws ohonom ar yr antur gan gyrraedd y Senedd am 10.30. Tywyswyd ni o amgylch gan Catrin , sy'n gofalu am ymwelwyr fel ni, a mawr oedd difyrrwch y plant o gael eistedd yn Y Stafell Ymgynnull tu ôl i feicroffonau go iawn i drafod mater o bwys. Croesawyd pawb i roi ei farn ac i bleidleisio. Yna cawsom gwmni Elin Jones A.C. ei hun a oedd yn falch iawn o weld ysgol o Geredigion.

Ymlaen â ni wedyn i'r Amgueddfa Genedlaethol ble cawsom weld gwaith enillydd cystadleuaeth Artes Mundi. Roedd amrywiaeth o weithgareddau wedi eu trefnu ar ein cyfer pryd y cawsom ninnau gyfle i greu a chynllunio adeiladau addas i'w rhoi yn ein tref ddelfrydol. Ganol prynhawn cawsom fynd â'n pethau draw i wersyll yr Urdd ble cafodd pawb gyfle i weld ei stafell, dadbacio, a gwario pres poced cyn swper. Allan â ni wedyn i fowlio deg yng Nghanolfan y Ddraig Goch cyn noswylio, a chael amser da. Trannoeth, roedd cyfle i ymweld â stiwdio Dr.Who, y mwyafrif wrth eu boddau ond ddim at ddant pawb!

Daeth yn amser gadael mor fuan a chyrhaeddom i gyd nôl yn saff i Ben-llwyn erbyn 3.45 wedi cael amser gwerth chweil. Diolch i bawb wnaeth hyn yn bosib i ni ac am y trefnu gofalus. Fe ddown eto, unrhyw dro!

**Trip i'r castell**

Tro y Cyfnod Sylfaen oedd hi'r tro hwn i fynd allan ar ymweliad. I gastell Aberystwyth fuon nhw. Yno buont yn gwneud holiadur rhifedd, yn gwneud rhwbiadau o'r waliau cerrig ac yn chwarae gêm coron y brenin. Yna cinio ar fyrddau picnic y castell cyn cerdded ar hyd y prom am y Llyfrgell. Yno cawsant stori hyfryd am ddraig a buont yn addurno dreigiau bach coch i gael mynd ag un adref efo nhw. Diwrnod arall i'w gofio.

**Archifdy**

Croesawyd Dosbarth 2 a 3 i'r Archifdy yn ddiweddar. Yno cawsom weld ffotograffau o'r ysgol pan agorwyd yr adeilad presennol, gwelsom hen fapiao, hen arian a llawer o bethau eraill.

**Llyfrgell Genedlethol**

Cafwyd cyfle i weld pob math o adnoddau , arteffactau a thrysorau'r llyfrgell pan fu'r plant yno ar eu hymweliad. Yn eu plith roedd Beibl William Morgan, map cynnar o Gymru a Llyfr Gwyn Rhydderch.

**Dathlu'r 50**

Daeth nifer dda o bobl ynghyd i ddathlu 50 yr ysgol ar ddiwrnod olaf Chwefror. Bu grwpiau o blant yn holi cyn-ddisgyblion a chyn- aelodau o staff am eu hamser hwy yn Ysgol Pen-llwyn. Daeth casgliad amrywiol o luniau i law a difyr iawn fu'r hel atgofion. Bu'r Llyfrgell Genedlaethol yn tynnu lluniau nifer o arteffactau o'r cyfnod i ychwanegu at gasgliad Tlysau y Werin. Bu eraill yn gweithio ar fasdata ac eraill yn ffilmio unigolion yn siarad am eu hatgofion gan ddefnyddio Greenscreen. Canodd y plant gân y dathlu tra bu'r gwesteion yn mwynhau paned a chacen.

**Diolch**

Diolch i Urdd Benywod Cwmrheidol ac Aber-ffrwd am eu cyfraniad o £325 i Glwb y Caban wedi iddynt fod yn canu carolau yn y Cwm.

**Eisteddfod Gwŷl Dewi**

Cafwyd cystadlu brwd gan y plant gan gadw'r beirniaid yn brysur drwy'r prynhawn. Uchafbwynt yr Eisteddfod oedd Seremoni'r Cadeirio, pan gafodd Megan Lewis, blwyddyn 5, ei chadeirio am ei stori am Y Blaned. Llongyfrchiadau mawr iddi ac fe gyhoeddir canlyniadau'r cystadlaethau yn rhifyn mis Mawrth.











# Ysgol Craig yr Wylfa





### Diwrnod Diogelwch ar y We

Yn ystod diwrnod "Diogelwch ar y We", bu'r plant yn gwneud amryw o weithgareddau a gêmau er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y we a'r pwysigrwydd o fod yn ddiogel wrth ei ddefnyddio. Hefyd, ar ôl ysgol, daeth Debbie Pemberthy, sef un o'r rhieni ac aelod o'r llywodraethwyr, i siarad gyda'r rhieni am y pwysigrwydd o gadw eu plant yn ddiogel ar lein.

### Rygbi CA2

Daeth Steffan i gynnal sesiwn rygbi gyda phlant Cyfnod Allweddol dau i gyd. Roedd pawb wedi mwynhau dysgu sgiliau newydd a chwarae gêm o dag rygbi.

### Ymweliad gan yr Athletwr Paralympaidd Byd Enwog

Pleser oedd croesawu ymwelydd enwog atom cyn diwedd yr hanner tymor, sef Beverly Jones, yr athletwr paralympaidd. Cyflwynodd ei hun gan ddangos clipiau fideo o'r perfformiad yn y Paraolympics a chafodd y plant gyfle bythgofiadwy a chyffrous o weld a chyffwrdd a'i medalau! Cafodd y plant eu noddi i wneud cylchedau ffitrwydd gyda hi. Diolch i bawb a'u noddodd - codwyd tua £500! Gyda'r arian a godwyd, rydym nawr yn medru prynu adnoddau chwaraeon newydd ar gyfer y plant.

### "Parti'r Castell"

Prynhawn olaf cyn yr hanner tymor, cafodd plant y Cyfnod Sylfaen barti, "Parti'r Castell". Gwisgodd pawb i fyny'n smart i gyd-fynd gyda ein thema "Cestyll a Dreigiau". Buom yn chwarae gêmau parti ac yna cawsom wledd.

### Eisteddfod Ysgol

Ar Fawrth y cyntaf, cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Craig Yr Wylfa i lawr yn neuadd y pentref - roedd y neuadd fel ton o fôr coch gan i bawb wneud ymdrech i wisgo eu gwisgoedd Cymreig neu grysau rygbi. Braf oedd gweld pawb wedi gwneud eu gorau glas ar y llwyfan, ond yn bennaf oll - eu gweld nhw'n ddigon hyderus i fynd i'r llwyfan ac yn mwynhau perfformio. Hefyd roedd y plant wedi cystadlu yn y gystadleuaeth celf (tynnu llun 2D) a llawysgrifen, ac roedd plant CA2 wedi ysgrifennu storïau Cymraeg a chreu robotiaid 3D. Gwaith arbennig blant!








**MYNACH GARDEN MAINTENANCE**

**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**

Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

**Ffoniwch Meirion:**

07792 457816

01974 261758

e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

**Eirian Reynolds, Tech. S.P.**

**GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH**

Arolygon Diogelwch

Asesiadau Peryglon

Archwiliadau Damweiniau

Hyfforddiant

**01970 820124**

**07709 505741**

# Ysgol Rhydypennau

### Noson Cawl a Chân

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi trefnodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol noson 'Cawl a Chân' yn Neuadd Rhydypennau ar Fawrth y cyntaf; a braf yn wir oedd gweld y neuadd yn orlawn. I ddechrau'r noson perfformiwyd eitemau Eisteddfod yr Urdd gan blant yr ysgol; yn dilyn y canu, y llefaru a'r actio cafodd y gynulleidfa gyfle i flasu cawl bendigedig Angharad Lewis. Yn ystod y sgwrsio a'r gwledda trefnwyd raffl a chafwyd cyfle i brynu te, coffi a chacennau. Ar ddiwedd noson ddifyr a chymdeithasol tu hwnt llwyddwyd i wneud elw o £650 i'r ysgol. Diolch yn fawr iawn i Angharad Lewis am baratoi a choginio'r cawl i dros gant a hanner o bobl llwglyd iawn. Diolch hefyd i Rhodri Llwyd Morgan am lywio'r noson ac i Bwyllgor y Neuadd am hwyluso'r trefniadau cyn ac yn ystod y noson.

### Eisteddfod yr Urdd

Dyma ganlyniadau Rhydypennau yn yr Eisteddfod gylch:
1af-Iestyn Roberts-unawd cerdd dant bl 2 ac iau
1af-Parti Unsain
Pob hwyl i Iestyn a'r parti unsain yn yr Eisteddfod Ranbarth ym Mhontrhydfendigaid ar Fawrth 25
2il-Ymgom bl 6 ac iau
2il Parti llefaru
2il-Enid Evans – llefaru bl 2 ac iau
2il-parti cerdd dant bl 6 ac iau
3ydd-Lili Myrddin Unawd bl 2 ac iau.

### Eisteddfod Offerynnol yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Osian King (unawd offerynnol) ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod Offerynnol yn Felin-fach yn ddiweddar. Mi fydd Osian nawr yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Pen-y-bont ar Ogwr fis Mai nesaf. Pob hwyl iddo.

### Diwrnod y Llyfr

Eleni dathlwyd Diwrnod y Llyfr ar yr ail o Fawrth. Daeth y plant i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriadau o'u hoff lyfrau darllen.

### Clwb Cant

Dyma'r canlyniad:
1af -£25-Bet Evans- Bow Street.
2il-£15- Samantha James- Penrhyn-coch.
3ydd-£10-Debbie Salvoni- Bow Street.

### Beicio

Mae plant blwyddyn 6 yn brysur yn gwella a datblygu sgiliau'r ffordd fawr ar eu beiciau. Maent yn paratoi ar gyfer y prawf terfynol er mwyn ennill tystysgrif diogelwch ar y ffordd fawr. Hoffai'r ysgol ddiolch i Mr Grahame Marsh am yr hyfforddiant.



Hyfforddiant beicio Blwyddyn 6



Parti Cerdd Dant-blwyddyn 2



Y Parti Llefaru.



Osian King-Pencampwr Ceredigion.



Noson 'Cawl a Chân' yn neuadd y pentref.



Dathlu 'Diwrnod y Llyfr'

# Ysgol Penrhyn-coch

### Diogelwch y Rhyngrwyd

Codwyd ymwybyddiaeth o ddiogelwch y Rhyngrwyd ar Chwefror yr 2il lle buom yn edrych ar sut gallwn fod yn edrych am luniau yn ddiogel ar y we. Dathlwyd yn yr un wythnos lwyddiant Osian Petts o flwyddyn 6 wrth iddo dderbyn yr ail wobr am gynllun dylunio logo i adran ddiogelwch y Rhyngrwyd yn y Cynulliad. Rydyn i gyd yn browd iawn ohonot.

### Cogurdd

Llongyfarchiadau iti Carys James ar gyrraedd ffeinal Cogurdd Ceredigion. Roedd cyrraedd y naw olaf yn dipyn o gamp ac roedd dy fwyd yn flasus iawn!

### Trip i'r castell

Mwynheuodd plant y dosbarth derbyn eu diwrnod yng Nghastell y dref a'u sesiwn yn Llyfrgell y dref. Braf cael dathlu diwedd ein thema ar gestyll a dreigiau.

### Pythefnos Masnach deg

Penderfynodd disgyblion blwyddyn 6 gynnal siop Masnach Deg pob bore am y pythefnos. Buom yn dewis eu nwyddau, gweithio allan yr elw ac yn hysbysu pawb am ein busnes. Dathlwyd diwedd yr ymgyrch wrth gynnal bore coffi i gefnogi ffermwyr sy'n tyfu y cnydau i greu'r cynnyrch. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

### Dydd Mawrth Ynyd

Cafwyd gwasnaeth Ysgol pwrpasol iawn gan y Parchedig Lyn Dafis gyda phrif neges o lanhau cyn y Gwanwyn. Esboniwyd traddodiad Dydd Mawrth Ynyd a sut bod coginio crempogau yn ein hatgoffa o gyfnod y glanhau yn ein bywydau.

Cafwyd tipyn o gystadleuaeth rhwng yr athrawon yn ystod y dydd ; pwy oedd a'r crempogau gorau?! Diolch byth am Mrs Watkins i roi cymorth i rai yn y gegin!

### Eisteddfod Ysgol

Cafwyd Eisteddfod Ysgol gystadleuol iawn eleni eto! Da iawn i'r holl ddisgyblion a ddysgodd y darnau canu a llefaru, cymryd rhan sydd yn bwysig. Cafwyd cystadlaethau newydd a hwyliog eleni-dosbarth derbyn yn creu band, blwyddyn 1 a 2 yn dawnsio gwerin, blwyddyn 3 a 4 yn Meimio i Gerddoriaeth a blwyddyn 5 a 6 yn cyflwyno'r Haca! Diolch o galon i Carys Mai o Lan-non am feirniadu yr holl gystadlaethau. Llongyfarchiadau mawr i Carys James am ennill y Gadair gyda'i stori 'Y Blaned', da iawn ti. Ar ôl y cystadlu brwd y capteiniaid Connor Robinson a Seren Bedder oedd yn arwain Seilo i fuddugoliaeth. Llongyfarchiadau i Stewi am ddod yn ail. Cawn weld beth fydd y canlyniad ar ddiwrnod y Mabolgampau yn Nhymor yr Haf!

### Diwrnod y llyfr

Eleni eto cafwyd cymeriadau di-ri yn dod trwy giat yr Ysgol! Cymeriadau enwog fel Jac a'r goeden ffa i dywysogesau straeon Tylwyth teg!

Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen sesiwn stori gan Caryl Lewis, roedden i gyd wedi ymgolli yn nychymyg Caryl a hoffem ddiolch iddi am ein sbarduno. Braf gwrando ar y plant yn gofyn cwestiynau campus iddi ac rydyn yn gwybod llawer mwy am yr hyn sydd ar y gweill ganddi!

### Twrnament Hoci Cylch Aberystwyth

Roedd Miss Cory yn athrawes browd iawn ar Fawrth y 3ydd wrth i dîm Bro Dafydd ennill twrnament hoci y cylch. Enillwyd pob gêm gan y criw ac mae'r dyfodol yn ddisglair i dimoedd Penrhyn! Llongyfarchiadau blant ac i'r hyfforddwraig Miss Cory!










**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

**GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS**
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

**GWASANAETH CYFIEITHU**
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

# Tasg y Tincer



Elin

Daeth llond sachaid o luniau bendigedig drwy'r post i mi yn ystod yr wythnosau diwethaf! Diolch i Lleucu ap Llywelyn, Gruffudd ap Llywelyn a Mabli ap Llywelyn, Capel Madog; Elin Pierce Williams, Bow Street; Anest Erwan, Bow Street; Lily-May Welsby, Aberystwyth; Cari Jenkins, Penrhyn-coch; Owain Llŷr Hywel, Bow Street; Alys-Mai Griffiths, Y Borth; Cennydd Davies, Llanilar; Sali Mair Jenkins, Clydach; Caitlin Thomas, Bow Street ac Owain Herron, Bow Street am eich gwaith hyfryd.

Bu'n rhaid i mi ofyn i'm ffrindiau ddewis enillydd y tro hwn gan fod y safon mor uchel a'r lluniau mor dda. A'r llun a ddewiswyd oedd dy un di, Elin – da iawn ti!

Rydyn ni wedi dathlu sawl peth yn ddiweddar – Dydd Mawrth Ynyd (Diwrnod Crempog!!, Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr. Gobeithio i chi fwynhau'r cyfan. Bydd pobl Iwerddon – y Gwyddelod – yn dathlu dydd gŵyl eu nawddsant ar 17 Mawrth, sef Sant Padrig. Mae sôn iddo gael ei eni ar ddiwedd y bedwaredd ganrif, a hynny ym mhentref Banwen, yng Nghwm Dulais, ond mae eraill yn dweud mai un o'r Alban oedd. Pan oedd yn 16 oed, cafodd ei gipio gan fôr-ladron a'i gymryd i Iwerddon ar long! Rydym yn cysylltu'r feillionen â Sant Padrig – roedd o'n defnyddio'r feillionen wrth siarad â phobl Iwerddon am Iesu Grist. Os welwch chi feillionen a chanddi bedair deilen ar 17 Mawrth, byddwch yn berson lwcus dros ben am flwyddyn gyfan! Dyddiad pwysig arall i'w gofio yn ystod mis Mawrth yw Sul y Mamau ar 26 Mawrth. Cofiwch roi brecwast yn y gwely i Mam ar y bore Sul hwnnw, a beth am wneud cerdyn arbennig? Byddwn yn troi'r clociau hefyd cyn diwedd y mis – hwrê!

Y tro hwn, beth am liwio'r llun sy'n ein hatgoffa bod y gwanwyn ar fin dod? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Ebrill. Ta ta tan toc!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**

CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT

AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X

9 770963 925009 >

*Rhif 397 | MAWRTH 2017*